



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Strategaeth Rheoli Gwybodaeth

Perchennog: Peter Kennedy, Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Rhifyn: 1.0

Dyddiad: Mehefin 2016
Dyddiad yr Adolygiad Pwysig Nesaf: Mehefin 2019

Rheolaeth Fersiwn

0.1	<i>Drafft cyntaf</i>
1.0	<i>Ail ddrafft - 2015 03 26 – yn cynnwys sylwadau Steven Marshall</i>
1.1	<i>Ail ddrafft – Ion 2016 – yn cynnwys sylwadau o'r ymgynghoriad</i>
1.2	<i>Ail ddrafft – Mawrth 2016 – yn cynnwys sylwadau'r Grŵp Rheoli a Diogelwch Gwybodaeth a Hysbysrwydd ar 2016/02/11</i>

Y Ddogfen Hon

Fersiwn	V1.0
Dyddiad	01 Mehefin 2016
Cymeradwywyd gan	
Crynodeb	Mae'r Strategaeth hon yn nodi dull Rheoli Gwybodaeth Llywodraeth Cymru.

Hanes Diwygio'r Ddogfen

Fersiwn	Dyddiad	Cymeradwywyd gan	Sylwadau

Cysylltiadau:

Steven Marshall, Pennaeth yr Is-adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol

Perchennog y Polisi:

Peter Kennedy, Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth Llywodraeth Cymru

AR GYFER PWY Y MAE'R STRATEGAETH HON?

Mae ar holl gyflogaion Llywodraeth Cymru angen gwybodaeth bob dydd er mwyn gwneud eu swyddi – ni all Llywodraeth Cymru weithio na chyflawni ei hamcanion hebddi. Nid dim ond ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn "rolau gwybodaeth" y mae'r strategaeth hon: mae wedi'i bwriadu ar gyfer holl staff Llywodraeth Cymru – ar gyfer pob rôl, pob gradd, ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae'n nodi'r hyn y mae angen i 'ni' fel staff Llywodraeth Cymru ei wneud i reoli ein gwybodaeth yn well a chefnogi Gweinidogion Cymru.

Mae cyflawni perffeithrwydd o ran rheoli gwybodaeth y tu hwnt i unrhyw sefydliad mawr; felly mae'n rhaid inni ganolbwyntio ar wybodaeth sy'n debygol o fod o werth.

Mae'n rhaid inni gydymffurfio â'r gyfraith, yn enwedig y pedair prif Ddeddf sy'n ymwneud â'r ffordd yr ydym yn rheoli ac yn defnyddio gwybodaeth yn Llywodraeth Cymru:

- Y Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus
- Y Ddeddf Diogelu Data
- Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol
- Y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol
- Rheoliadau Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus

Mae'n rhaid inni hefyd gydymffurfio â pholisïau a chanllawiau'r Llywodraeth ar y cyfan, yn enwedig:

- Y Fframwaith Polisi Diogelwch
- Y Cod Ymarfer ar reoli cofnodion
- Canllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth

YNGLŶN Â BETH MAE'R STRATEGAETH HON?

Nod y strategaeth hon yw darparu fframwaith ar gyfer rheoli ein gwybodaeth trwy gydol ei chylch oes. Mae'n gyson â'r Egwyddorion Gwybodaeth

<http://www.nationalarchives.gov.uk/information-management/manage-information/planning/information-principles/> a hefyd â nodau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/?lang=cy> a Chynlluniau Busnes Adrannol Llywodraeth Cymru.

Mae'r strategaeth hon yn disodli'r "Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Hysbysrwydd 2012 – 2015".

Strategaethau Cysylltiedig

Strategaeth TGCh Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio methodoleg "cleient deallus" lle mae anghenion busnes yn cael eu hadnabod gan adrannau ac yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Llundain Datrysiadau trwy Ffurflen Cymeradwyo Prosiect TGCh ar gyfer cymeradwyaeth.

Mae Adran 14 o Gyfeiriad B, "Pa Fesurau y Mae Angen Eu Rhoi ar Waith wrth Ddefnyddio'r Systemau Newydd?", yn mandadu y bydd y tîm Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion yn cael ei hysbysu ynghylch meysydd prosiect newydd trwy broses y Ffurflen Cymeradwyo Prosiect TGCh ac y bydd yn cynnal trafodaethau gyda'r prosiect er mwyn sicrhau bod y gofynion o ran gwybodaeth yn cael eu hateb. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gofnodion cyfredol yn ystod eu cylch oes a sicrhau bod y rhain yn dal i fod yn hygyrch i genedlaethau'r dyfodol lle y bo'n briodol.

Polisiâu cysylltiedig

Polisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion

<https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A14413911/document/versions/published>

Digidol yn Gyntaf: Rhoi pobl wrth galon datblygu a chynllunio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru

<http://gov.wales/docs/det/publications/150421-digital-first-cy.pdf>

Polisi Diogelwch

<https://documents.hf.wales.gov.uk/xclient/id:A879090>

Polisi Diogelwch Gwybodaeth

<https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A9478770/document/versions/published>

Polisi Gweithredol y System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth

Mae hwn yn berthnasol i staff sy'n gyfrifol am reoli a gweithredu System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth Llywodraeth Cymru.

<http://intranet/English/Information/Protecting/Security/Pages/ISMSOperationalPolicy.aspx>

Datganiad Archwaeth Risg yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth

<https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A9407465/document/versions/published>

Polisi'r Cyfryngau Cymdeithasol

<https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A729749/document/versions/published>

Gwybodaeth ategol

Deddf Llywodraeth Cymru 2006 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/contents>

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/36/contents>

Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth (Rhyddhau Setiau Data ar gyfer eu Hailddefnyddio) (Ffioedd) Newydd 2013

<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2013/1977/contents/made>

Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth: eich cyfrifoldebau a'ch rhwymedigaethau chi – Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

http://www.ico.gov.uk/for_organisations/freedom_of_information.aspx

Rhyddid a hawliau – Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

<http://www.justice.gov.uk/guidance/freedom-and-rights/freedom-of-information/index.htm>

Deddf Diogelu Data 1998 – Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

http://www.ico.gov.uk/for_organisations/data_protection.aspx

Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1959 a 1967;

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/Eliz2/6-7/51> a

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1967/44>

Y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol;

<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2004/3391/contents/made>

Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2015

http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/1415/pdfs/uksi_20151415_en.pdf

Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988;

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1988/48/contents>

Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/25/contents>

Deddf Diogelu Rhyddidau 2012

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/9/contents/enacted>

Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/18/contents>

Codau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth

<https://gss.civilservice.gov.uk/about/code-of-practice/>

Strategaeth Rheoli Ansawdd

<http://gov.wales/statistics-and-research/about/statement-of-compliance/quality-management/?lang=cy>

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Parhaol

Ni all Llywodraeth Cymru weithredu heb wybodaeth. Mae penderfyniadau o ansawdd da'n ddibynnol arni. Er ein bod yn aml yn ein cael ein hunain yn boddi dan wybodaeth o bosibl, mae angen inni fod yn hyderus bod yr wybodaeth a'r data sylfaenol yn gyfoes, yn gywir, ac yn cael eu darparu'n brydlon ac mewn fformat defnyddiadwy.

Mae cryn dipyn wedi newid ers inni gyhoeddi ein strategaeth flaenorol (Y Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Hysbysrwydd 2012 – 2015) o fewn Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth ddiwygiedig hon yn nodi ein dull o reoli gwybodaeth er mwyn taro'r cydbwysedd cwir rhwng rheoli gwybodaeth a threfnu bod gwybodaeth ar gael yn fwy eang i'r cyhoedd, gan sicrhau ar yr un pryd bod trefniadau diogelu digonol yn bodoli.

Gellir a rhaid defnyddio technoleg i drawsnewid y modd y darperir ein gwasanaethau cyhoeddus. Bydd defnyddio'r cyfleoedd y mae technoleg yn eu cynnig yn y ffordd lawnaf bosibl yn ein helpu i fod yn fwy effeithlon, yn lleihau costau darparu, ac yn gwneud y sector cyhoeddus yn lle gwell i weithio.

Mae'r strategaeth hon hefyd yn amcanu at ymdrin â'r argymhellion ar gyfer gwella a wnaed gan yr Archifau Cenedlaethol yn eu hadroddiad Asesiad Rheoli Gwybodaeth yn 2014. Nid ydym wedi bod yn defnyddio ein storfeydd cynnwys ac asedau busnes megis iShare, ein System Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electronig, yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl. Mae effeithiolrwydd y modd yr ydym yn trin ein gwybodaeth ac yn cadw cofnodion yn cael effaith uniongyrchol ar ein gallu i gefnogi Gweinidogion ac i ddarparu gwasanaethau hanfodol ar gyfer pobl Cymru.

Mae arnom angen darparu gwell gwasanaethau a gwybodaeth ar gyfer ein cwsmeriaid hefyd ac ailddefnyddio gwybodaeth yr ydym wedi'i chael ganddynt hwy. Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal ein ffocws ar yr elfennau pwysig hyn o reoli gwybodaeth er mwyn inni allu darparu ar gyfer pobl Cymru.

Dylai'r holl reolwyr, yn enwedig Uwch Swyddogion Sifil, fodelu'r ymddygiadau a'r diwylliant sy'n sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei gwerthfawrogi, ei diogelu a'i defnyddio er lles y cyhoedd. Dylai rheolwyr annog eu staff a rhanddeiliaid i adnabod risgiau.

Mae'r newidiadau i'r dirwedd gyfansoddiadol a democrataidd sydd wrthi'n digwydd ar hyn o bryd yn cynnig cyfle enfawr inni ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus yn y 'ffordd Gymreig'. Mae'n rhaid inni gofio y bydd yr wybodaeth a'r cofnodion yr ydym yn eu creu yn awr yn adnoddau gwybodaeth gwerthfawr yn y dyfodol.

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, mae'r strategaeth hon yn cael ei chefnogi'n llawn gennyf fi ac aelodau ein Bwrdd a'n Huwch-berchennog Risg Gwybodaeth.

Syr Derek Jones
Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru

Cynnwys

1. Cyflwyniad	Error! Bookmark
not defined.	
2. Cyd-destun Llywodraeth Cymru	Error! Bookmark
not defined.	
2.1 Asesiad Rheoli Gwybodaeth	11
2.2 Model Aeddfedrwydd Rheoli Gwybodaeth	11
2.3 Strategaeth Data Agored	Error! Bookmark
not defined.	
2.4 Strategaeth TGCh	11
2.5 Strategaeth Ddigidol	Error! Bookmark
not defined.	
3. Gweledigaeth Rheoli Gwybodaeth Llywodraeth Cymru	Error! Bookmark
not defined.	
3.1 Rydym yn gwerthfawrogi gwybodaeth fel ased	12
3.1.1 Offer a ffynonellau gwybodaeth allweddol	12
3.1.2 Syt yr ydym yn ateb y gofynion	12
3.1.3 Cynlluniau ar gyfer y dyfodol	14
3.2 Rydym yn rheoli ein gwybodaeth	15
3.2.1 Offer a ffynonellau gwybodaeth allweddol	15
3.2.2 Sut yr ydym yn ateb y gofynion	15
3.2.3 Cynlluniau ar gyfer y dyfodol	19
3.3 Mae gwybodaeth yn addas ar gyfer y diben yn Llywodraeth Cymru	19
3.3.1 Offer a ffynonellau gwybodaeth allweddol	19
3.3.2 Sut yr ydym yn ateb y gofynion	19
3.3.3 Cynlluniau ar gyfer y dyfodol	21
3.4 Mae gwybodaeth yn safonedig ac yn gysylltadwy yn Llywodraeth Cymru	22
3.4.1 Offer a ffynonellau gwybodaeth allweddol	22
3.4.2 Sut yr ydym yn ateb y gofynion	22
3.4.3 Cynlluniau ar gyfer y dyfodol	23
3.5 Mae gwybodaeth yn cael ei hailddefnyddio	23
3.5.1 Offer a ffynonellau gwybodaeth allweddol	23
3.5.2 Sut yr ydym yn ateb y gofynion	23
3.5.3 Cynlluniau ar gyfer y dyfodol	24

<u>3.6 Mae gwybodaeth gyhoeddus yn cael ei chyhoeddi</u>	25
<u>3.6.1 Offer a ffynonellau gwybodaeth allweddol</u>	25
<u>3.6.2 Sut yr ydym yn ateb y gofynion</u>	25
<u>3.6.3 Cynlluniau ar gyfer y dyfodol</u>	26
<u>3.7 Mae dinasyddion a busnesau'n gallu cael mynediad at wybodaeth amdanynt hwy eu hunain</u>	26
<u>3.7.1 Offer a ffynonellau gwybodaeth</u>	26
<u>3.7.2 Sut yr ydym yn ateb y gofynion</u>	27
<u>3.7.3 Cynlluniau ar gyfer y dyfodol</u>	27
<u>Atodiad 1: Meini Prawf Asesu ar gyfer Aeddfedrwydd Rheoli Gwybodaeth</u>	28

Cyflwyniad

Mae angen gwybodaeth i oleuo'r broses o ddatblygu polisïau a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn ogystal ag i sicrhau atebolrwydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r cyhoedd yng Nghymru. Ar lefel weithredol, gellir defnyddio gwybodaeth i ysgogi effeithlonrwydd a'r broses o wella gwasanaethau – gan wella gwasanaethau cyhoeddus ac, ar yr un pryd, lleihau gwastraff a gwella gwerth am arian.

Daw gwybodaeth ar sawl ffurf – dogfennau polisi, papurau ymchwil, cofnodion, ystadegau, data gweithredol, delweddau, ffotograffau, cronfeydd data, setiau data, data personol – ac fe'i cedwir mewn amrywiaeth o fformatau argraffedig ac electronig. Ar draws Llywodraeth Cymru rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ein bywydau gwaith o ddydd i ddydd wrth inni weithio i gyflawni ein hamcanion ni ein hunain ac amcanion Llywodraeth Cymru – boed o ran darparu gwasanaethau, llunio polisïau, drafftio deddfwriaeth, cynnal cyfarfodydd neu reoli staff.

Er mwyn cael y budd mwyaf posibl o'n gwybodaeth mae angen inni ei rheoli'n effeithiol, trwy gydol ei chylch oes¹, ei haildefnyddio lle gallwn ni, ei rhannu'n briodol a sicrhau ei bod yn cael ei diogelu'n briodol. Mae profiad blaenorol wedi dangos inni nad yw hyn yn digwydd bob amser – gall gwybodaeth nad yw'n cael ei rheoli'n briodol gael ei cholli, ei rhannu gyda'r bobl anghywir neu beidio â chael ei chanfod o gwbl.

Mae rheoli gwybodaeth yn dda yn hanfodol i waith Llywodraeth Cymru. Nod y strategaeth Rheoli Gwybodaeth yw darparu fframwaith ar gyfer rheoli ein gwybodaeth trwy gydol ei chylch oes a rhoi ffocws sydd wedi bod ar goll hyd yma. Mae hefyd yn disgrifio'r camau gweithredu sy'n mynd rhagddynt neu sydd yn yr arfaeth i ddatblygu ein gallu i reoli gwybodaeth ymhellach.

Mae'r strategaeth yn cydnabod y gall strategaethau a pholisïau lleol ar gyfer rheoli gwybodaeth fodoli o fewn meysydd busnes ond disgwylir y bydd y rhain yn cael eu cysoni â'r strategaeth rheoli gwybodaeth drosfwaol hon ar gyfer Llywodraeth Cymru a chynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer tymor y Cynulliad 2016-2021. Mae'n cynrychioli ymrwymiad i gyflawni, a gaiff ei fesur yn ôl yr effaith y mae'r Llywodraeth yn ei chael mewn gwirionedd ar fywydau pobl.

Mae gwella'r ffordd yr ydym yn rheoli ein gwybodaeth yn dwyn sawl budd i'r unigolyn ac i Lywodraeth Cymru.

Mae rheoli gwybodaeth yn dda yn dwyn budd i'r unigolyn yn y ffyrdd canlynol:

- dod o hyd i'r wybodaeth y mae'i hangen arnoch yn gyflym ac yn rhwydd;
- gwybod pa wybodaeth y mae arnoch angen ei chadw a pha wybodaeth y gallwch ei gwaredu – cael gwared ar achosion o ddyblygu a'r dull "Cadw gwybodaeth rhag ofn";
- gwybod ble i gadw'r wybodaeth a sut i'w chadw;

¹ Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio cylch oes ac iddo wyth cyfnod: Creu, Sicrhau, Defnyddio, Storio, Cyrchu, Rhannu, Cyhoeddi a Gwaredu.

- gweithio'n fwy effeithlon, gan ddefnyddio adnoddau yn y ffordd orau – ailddefnyddio gwybodaeth a grëwyd gennych chi neu eraill a pheidio ag ailddyfeisio'r olwyn;
- gweithio'n fwy cydweithredol – gan ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth yn y ffordd orau;
- gwybod pa wybodaeth y gallwch ei rhannu a chyda phwy;
- gwybod pa wybodaeth y mae angen iddi gael ei diogelu a pha wybodaeth y dylid trefnu ei bod ar gael i'r cyhoedd;
- darparu sicrwydd bod risgiau'n cael eu lleihau a'ch bod yn cydymffurfio â'ch cyfrifoldebau dan ofynion cyfreithiol.

Mae rheoli gwybodaeth yn dda yn dwyn budd i Lywodraeth Cymru yn y ffyrdd canlynol:

- mae'n ein galluogi i ddarparu gwasanaeth mwy effeithiol ar gyfer rhanddeiliaid a'r cyhoedd gyda mwy o dryloywder o ran yr wybodaeth yr ydym yn ei dal;
- mae'n gwarchod ein henw da yn llygaid y cyhoedd ac yn ein galluogi i gwrdd â'r disgwyliadau o ran sut y byddwn yn rheoli eu gwybodaeth
- mae'n meithrin ymddiriedaeth yn ansawdd ein gwybodaeth ar gyfer staff a'r cyhoedd;
- mae'n cefnogi proses wybodus ar gyfer llunio polisïau a gwneud penderfyniadau;
- mae'n sicrhau y cydymffurfir â gofynion cyfreithiol;
- mae'n gwarchod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn awr ac a fydd yn dod yn hanes yn y dyfodol ar gyfer y cofnod cyhoeddus;
- mae'n cynyddu ein heffeithlonrwydd gan ein galluogi i gael y gorau o'r wybodaeth yr ydym yn ei dal ac i'w hailddefnyddio, sy'n ein hatal rhag gorfod dechrau o'r dechrau bob tro;
- mae'n gostwng lefelau risg sy'n gysylltiedig â gwybodaeth ac yn sicrhau bod ein gwybodaeth yn cael ei diogelu a'i bod yn ddiogel;
- mae'n rhoi hyder a sicrwydd i Uwch-berchnogion Risg Gwybodaeth ein bod yn rheoli risg gwybodaeth yn yr adran;
- trwy rôl Perchnogion Asedau Gwybodaeth, mae'n sicrhau ein bod yn ymwybodol o'n daliadau gwybodaeth.

Mae rheoli gwybodaeth yn dda yn Llywodraeth Cymru yn dwyn budd i'r cyhoedd yng Nghymru yn y ffyrdd canlynol:


- mae'n darparu gwasanaethau mwy effeithlon a chost-effeithiol;
- mae'n sicrhau ein bod yn defnyddio gwybodaeth yn y ffordd orau;
- mae'n cynyddu tryloywder ein data, gan alluogi'r cyhoedd i gyfranogi mewn prosesau penderfynu;
- mae'n cynyddu dealltwriaeth am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud;
- mae'n galluogi'r cyhoedd i ymgysylltu a chydweithio â Llywodraeth Cymru o ran cyrraedd ei nodau;
- mae'n galluogi'r cyhoedd i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Cyd-destun Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gynnig a gweithredu polisiau a deddfau sy'n berthnasol i Gymru ac sy'n amcanu at wella bywydau pawb yng Nghymru. Fe'i cefnogir gan staff sy'n gweithio mewn swyddfeydd ledled Cymru.

Mae ein Strategaeth Rheoli Gwybodaeth yn nodi ein dull o reoli ein gwybodaeth a'n hysbysrwydd i daro'r cydbwysedd cywir rhwng trefnu bod gwybodaeth ar gael yn fwy eang i'r cyhoedd a sicrhau bod trefniadau diogelu digonol wedi'u sefydlu.

Mae'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth hon yn egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi sylw i [Egwyddorion Gwybodaeth](#) y Llywodraeth i helpu i gyflawni ei hamcanion trwy fynd ati'n fwy effeithiol i lunio polisiau, cyflawni ein rhaglenni a'n gweithrediadau, darparu ein gwasanaethau ac i ddatblygu deddfau ar gyfer Cymru.



Mae'r Strategaeth yn rhan o gyfres o strategaethau rhyngberthynol sy'n nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â gofynion trawslywodraethol a gofynion yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n atgyfnerthu'r modd yr ydym yn rheoli'r wybodaeth a'r data yr ydym yn eu creu ar draws ein gweithgareddau busnes a'r modd yr ydym yn cynllunio i ddatblygu ein galluedd, ein prosesau a'n systemau ymhellach. Bydd yn cael ei hadolygu'n flynyddol i ganfod unrhyw ddiweddariadau sy'n ofynnol.

Mae'n bwysig nodi bod yr holl ofynion deddfwriaethol sy'n tanategu'r strategaeth hon yn deillio o ddeddfwriaeth ar lefel y DU gyfan (mewn meysydd sydd heb eu datganoli), ac o ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Gall Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar ddatblygiad deddfwriaeth newydd yn y meysydd hyn trwy sylwadau mewn ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus, ond nid oes pwerau deddfu gennym mewn perthynas â'r materion hyn.

2.1 Asesiad Rheoli Gwybodaeth

Cynhaliodd yr Archifau Cenedlaethol Asesiad Rheoli Gwybodaeth ym mis Mawrth 2014. Roedd hwn yn cydnabod arfer da gan Lywodraeth Cymru mewn tri o'r pum maes a aseswyd yn yr adroddiad

[Information Management Assessment: A Review of Good Practice from the IMA Programme 2008-14.](#)

Cytunwyd ar [Gynllun Gweithredu](#) gyda'r Archifau Cenedlaethol i fynd i'r afael â gwendidau ym meysydd "Risg, llywodraethu a throsolwg gwybodaeth". Mae risgiau gwybodaeth a'u heffaith ar Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chymorth ar gyfer data a chofnodion etifeddol a pharhad digidol, wedi cael sylw hefyd.

2.2 Model Aeddfedrwydd Rheoli Gwybodaeth

Mae Atodiad 1 yn cynnwys set o feini prawf dangosol ar gyfer pob un o'r deg pennawd y mae'r Archifau Cenedlaethol yn eu defnyddio wrth asesu sefydliadau, gan symud ymlaen trwy bedair lefel aeddfedrwydd. Bydd y meini prawf hyn yn cael eu defnyddio i fesur ein cynnydd a helpu i ddangos budd adnabyddadwy yn unol ag amcanion busnes.

2.3 Strategaeth TGCh

O fewn fframwaith llywodraethu eglur bydd TGCh yn dod â gwerth i Lywodraeth Cymru trwy alluogi'r corff corfforaethol ac adrannau i ddiwallu eu hanghenion o ran rheoli gwybodaeth trwy drefniadaeth TGCh y mae buddiannau cwsmeriaid yn ganolog iddi ac sy'n nodi datrysiadau arloesol i ddiwallu anghenion busnes.

Gweledigaeth Rheoli Gwybodaeth Llywodraeth Cymru

"Mae Llywodraeth Cymru yn amcanu at greu, sicrhau, defnyddio, storio, cyrchu, cyhoeddi a gwaredu gwybodaeth trwy systemau a phrosesau sy'n gyson â gofynion deddfwriaethol ac anghenion tryloywder ac a ategir gan bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau effeithiol."

Byddwn yn gwireddu ein gweledigaeth rheoli gwybodaeth trwy'r canlynol:

- rhannu ac aildefnyddio systemau a thechnoleg;
- cydgysylltu llifoedd a phrosesau gwybodaeth;
- manteisio ar wybodaeth a'i gwneud yn bosibl ei haildefnyddio;
- cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau.

Mae'r adran nesaf yn nodi fframwaith o Egwyddorion Gwybodaeth ar gyfer y Llywodraeth gyfan ac o dan y rhain rydym wedi adnabod nifer o gamau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i greu'r amgylchedd sy'n angenrheidiol i reoli gwybodaeth gorfforaethol, manteisio arni, trefnu ei bod ar gael a'i diogelu. Mae llawer o'r camau gweithredu hyn yn gorgyffwrdd â'n [Cynllun Gweithredu mewn ymateb i'r Asesiad Rheoli Gwybodaeth](#)

3.1 Rydym yn gwerthfawrogi gwybodaeth fel ased

“Mae’n bwysig bod gwybodaeth yn cael ei gwerthfawrogi fel ased ac yn cael ei rheoli, ei diogelu ac y manteisir arni trwy gydol ei chylch oes”

3.1.1 Offer a ffynonellau gwybodaeth allweddol

- Strategaeth Data Agored (gan gynnwys y Cynllun Cyhoeddi a'r Catalog Cyhoeddiadau)
- iShare, ein system rheoli dogfennau a chofnodion electronig gorfforaethol
- SAP, ein system gyllid
- System Rheoli a Monitro Gwybodaeth Rhaglenni Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
- CMS yw System Rheoli Achosion electronig CAFCASS Cymru.
- Cofrestrau Asedau Gwybodaeth
- Polisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion
- Dosbarthiadau Diogelwch Llywodraeth EM
- [Trosolwg Strategol Parhad Digidol](#)

3.1.2 Sut yr ydym yn ateb y gofynion

Datganiad gan y sefydliad i gadarnhau pwysigrwydd gwybodaeth i'r busnes

Mae'r Strategaeth hon yn cydnabod gwerth gwybodaeth gorfforaethol Llywodraeth Cymru a sut y mae'n cyfrannu at gyflawni amcan cyffredinol gweithredu polisiâu a deddfau i wella bywydau pawb yng Nghymru trwy ein rhaglenni, ein polisiâu a'n gwasanaethau. Ynghyd â'n Strategaeth Data Agored, mae'n cydnabod yr angen i fanteisio'n fwy eang ar wybodaeth o'r fath er budd y cyhoedd yng Nghymru, ein partneriaid mewn Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

Datganiad Llywodraethu a Holiadur Rheolaeth Fewnol

Y Datganiad Llywodraethu yw un o'r prif ddarnau o waith sy'n cynorthwyo'r Ysgrifennydd Parhaol, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, i wneud ei ddatganiad o fewn cyfrifon blynyddol Llywodraeth Cymru o ran sut y mae wedi cyflawni ei gyfrifoldeb i reoli'r adnoddau a ddefnyddir o fewn a chan ei sefydliad.

I gefnogi'r Ysgrifennydd Parhaol, a'i Ddatganiad Llywodraethu, mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr Cyffredinol gynnal adolygiad o reolaethau mewnol sy'n weithredol o fewn eu Cyfarwyddiaethau ac adrodd ar y canlyniadau mewn Datganiad Sicrwydd ar gyfer eu holl adrannau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Darperir datganiad profforma at y diben hwn.

Mae Holiadur Rheolaeth Fewnol wedi cael ei ddatblygu i hwyluso'r adolygiad hwn o'r rheolaethau sy'n gweithredu ym mhob cyfarwyddiaeth ac i gynorthwyo'r Cyfarwyddwyr

Cyffredinol i gwblhau eu datganiadau. Darperir nodiadau cyfarwyddyd i roi cymorth i gwblhau'r Holiadur Rheolaeth Fewnol hefyd. Bydd angen cael sicrwydd gan bob cyfarwyddiaeth ac mae'n ddoeth bod pob isadran yn darparu ei Datganiad Sicrwydd ei hun yn seiliedig ar yr Holiadur Rheolaeth Fewnol. Darperir datganiad profforma at y diben hwn.

Dylai Datganiad Sicrwydd a ffurflen Holiadur Rheolaeth Fewnol pob Cyfarwyddwr Cyffredinol fod yn destun gwaith craffu a herio gan Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Yn arbennig, dylai'r Pwyllgor hysbysu'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ynghylch unrhyw faterion rheolaeth y mae'n ystyried eu bod yn arwyddocaol a bod angen eu datgelu yn y [Datganiad Sicrwydd](#).

Mae asedau gwybodaeth yn cael eu perchnogi a'u catalogio ac mae eu gwerth i'r sefydliad yn hysbys

Mae pob Perchennog Asedau Gwybodaeth yn gyfrifol am gynhyrchu Datganiadau Ansawdd chwarterol yn eu priod feysydd, gyda'u Grŵp, a hwnnw'n rhoi sylw i berfformiad eu staff mewn meysydd allweddol sy'n cynnwys cydymffurfiaeth o ran systemau gwybodaeth, cadw cofnodion a diogelwch data e.e. iShare, tryloywder a diogelu data.

Dull diffiniedig ar gyfer mynd ati'n gyson i adnabod, categoreiddio a chatalogio asedau gwybodaeth a'u defnydd

Rydym yn gweithredu Cofrestr Asedau Gwybodaeth, ac o dan hon rydym yn rheoli pob ased gwybodaeth fel uned sengl i sicrhau ei fod yn cael ei ddeall, ei rannu, ei ddiogelu ac y manteisir arno'n effeithiol. Neilltuir Uwch-berchennog Asedau Gwybodaeth i bob ased gwybodaeth ac mae'n rhaid bod yr unigolyn hwnnw wedi cael yr hyfforddiant gofynnol a'i fod yn deall natur a diben yr ased. Neilltuir cyfrifoldeb iddynt am fonitro'r defnydd, mynd i'r afael â'r risgiau a sicrhau bod yr ased yn cael ei ddefnyddio'n llawn er lles y cyhoedd. Maent yn atebol yn flynyddol i'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth. Mae [canllawiau](#) ar gael mewn adrannau perthnasol ar ein mewnwyd, "Connect".

Rydym yn rhoi blaenoriaeth uchel i dryloywder fel rhan o'r ffordd yr ydym yn gweithio yn Llywodraeth Cymru. Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth i'w hailddefnyddio ar ein gwefan a'n [Catalog Cyhoeddiadau Ar-lein](#)

Rydym yn amcanu at gyhoeddi data i safon 3* a'r nod yw bod y rhan fwyaf o setiau data ar StatsCymru yn rhai 4* yn y misoedd nesaf. Mae mentrau'n mynd rhagddynt sydd wedi'u bwriadu i ryddhau data newydd a'i wneud yn haws i eraill ei ddefnyddio.

Rydym yn cyhoeddi data swyddogol manwl ar gyfer Cymru ar <https://statscymru.llyw.cymru/Help/Catalogue>.

Fframwaith sefydledig ar gyfer asesu a chofnodi gwerth asedau gwybodaeth

Fe wnaeth ein Hysgrifennydd Parhaol ymrwymiad yn [Asesiad Rheoli Gwybodaeth](#) Llywodraeth Cymru gan yr Archifau Cenedlaethol i “gryfhau trefniadau rheoli risg gwybodaeth, parhad digidol a throsolwg”.

Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn atebol am gadarnhau wrth yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth bod asedau newydd wedi cael eu cynnwys ar y Gofrestr, bod yr effaith ar fusnes a pharhad digidol wedi cael eu hasesu a bod trefniadau rheoli wedi cael eu sefydlu. Mae'n rhaid iddynt ddangos bod ystyriaeth wedi cael ei rhoi i ddefnyddio asedau gwybodaeth er lles y cyhoedd ac i adolygu'r wybodaeth ar y Gofrestr i sicrhau ei bod yn gywir ac yn gyfoes.

Mae digon o allu a chyllideb ddigonol yn cael eu sicrhau i gyflawni ein blaenoriaethau rheoli gwybodaeth

Mae cyllidebau ar gyfer gweithgareddau rheoli gwybodaeth yn cael eu trafod tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r penderfyniad ynghylch y symiau a gyllidebir yn seiliedig ar asesiad o'r angen i wario, yn enwedig mewn perthynas ag ymrwymadau cytundebol ond hefyd gwasanaethau tra phwysig.

3.1.3 Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

- Byddwn yn ceisio ailgadarnhau ymrwymiad yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Dirprwy Ysgrifenyddion Parhaol i bwysigrwydd rheoli gwybodaeth a chydymffurfio trwy weithredu'r argymhellion yn Adolygiadau Syr Alex Allan² i helpu i sicrhau cyfanrwydd hirdymor cofnodion Llywodraeth Cymru.
- Rydym wedi sicrhau cyllid ar gyfer “prosiect Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion” a adwaenir yn lleol fel “Gwella iShare” i fanteisio ar y gallu swyddogaethol nas defnyddir yn ein System Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electronig, iShare, ac i fynd i'r afael â chymhlethdodau o ran y ffordd y caiff ei defnyddio. Bydd y prosiect hefyd yn ymchwilio i'r opsiynau o ran llunio cofnodion electronig ar gyfer prosiectau'r UE ac yn treialu un neu fwy o opsiynau i fynd i'r afael â gwybodaeth a gaiff ei storio mewn ardaloedd storio etifeddol, yn rhai personol ac yn rhai a rennir (gyriannau H: a P:). Bydd offeryn meddalwedd e-Ddarganfod a fyddai'n gwella ein gallu i adnabod ac echdynnu cofnodion ar gyfer gweithredu (e.e. adolygiad sensitifrwydd a gynorthwyr yn dechnegol o gofnodion digidol a throsglwyddo i'r Archifau Cenedlaethol) yn cael ei ystyried. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl mabwysiadu dull mwy hyblyg o ailddatblygu ein cynllun ffeiliau corfforaethol.

² Adroddiad annibynnol. Adolygiad o gofnodion ac archifau digidol y Llywodraeth gan Syr Alex Allan. Llundain: Swyddfa'r Cabinet, Cyhoeddwyd gyntaf: 17 Rhagfyr 2015.

<https://www.gov.uk/government/publications/government-digital-records-and-archives-review-by-sir-alex-allan>

- Byddwn yn gofyn i'r tîm Archwilio Mewnol adolygu perfformiad Llywodraeth Cymru o'i gymharu â Model Aeddfedrwydd Rheoli Gwybodaeth Llywodraeth y DU i fesur cynnydd.
- Byddwn yn parhau i gyfranogi yn rhaglen Asesiad Rheoli Gwybodaeth barhaus yr Archifau Cenedlaethol (<http://www.nationalarchives.gov.uk/information-management/manage-information/ima/information-ima-members/>).

3.2 Rydym yn rheoli ein gwybodaeth

“Mae angen i wybodaeth gael ei llywodraethu mewn perthynas â gofynion cyfreithiol a bod yn seiliedig ar ddull cyson o asesu risgiau. Dylai rolau a chyfrifoldebau sefydliadol fod wedi'u sefydlu, a dylai sgiliau a galluoedd fod wedi'u datblygu.”

3.2.1 Offer a ffynonellau gwybodaeth allweddol

- Cofrestrau Asedau Gwybodaeth Is-adrannol
- Cofrestrau Risgiau Is-adrannol
- Cofrestr Risgiau Corfforaethol Llywodraeth Cymru
- Polisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion
- Polisi E-bost
- Polisi Diogelwch Gwybodaeth
- Polisi'r Cyfryngau Cymdeithasol
- Polisi a Chanllawiau Rhyddid Gwybodaeth
- Polisi a Chanllawiau Diogelu Data
- Trin Gwybodaeth Bersonol (Canllawiau i Staff)
- Cynllun Cyhoeddi

3.2.2 Sut yr ydym yn ateb y gofynion

Dull diffiniedig o Lywodraethu Gwybodaeth

Mae'r Grŵp Rheoli a Diogelwch Gwybodaeth a Hysbysrwydd yn sicrhau arweinyddiaeth weladwy ac effeithiol ar gyfer pennu a goruchwyllo cyfeiriad strategol corfforaethol rheoli gwybodaeth, hysbysrwydd/cofnodion a diogelwch gwybodaeth o fewn Llywodraeth Cymru.

Mae'r Grŵp hwn yn cynorthwyo'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth i gyflawni ei ddyletswyddau ac yn ateb gofynion cydymffurfio a nodir yn ISO27001. Mae'r Grŵp hefyd yn ymrwymedig i egwyddorion a phrosesau da ar gyfer rheoli gwybodaeth da a ddiffinnir gan ISO 15489 a deddfwriaeth megis y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000), y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (2004), y Ddeddf Diogelu Data (1998) a Rheoliadau Aildefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus (2005 a 2015). Mae'r Grŵp hefyd yn rhoi cyfarwyddyd a chymorth i Berchnogion Asedau Gwybodaeth.

Sicrhau y cyflawnir y camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn barod dan y prosiect E-bost a Chofnodion presennol yn ogystal â datblygu a gweithredu'r camau dilynol (megis gostyngiadau pellach mewn terfynau storio a rheol ddileu ar gyfer negeseuon e-bost);

Sefydlu amgylchedd technoleg sy'n cefnogi'r broses o reoli gwybodaeth, ei diogelu a manteisio arni

Mae gan Lywodraeth Cymru storfa gorfforaethol, iShare, i storio gwybodaeth, sy'n cefnogi rheolaeth cylch oes.

Mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud gan y Prosiect a'r Bwrdd Cyflawni "Lleihau Cymhlethdod: Gwella Trefniadau Rheoli E-bost a Gwybodaeth" i gyflwyno dull cyson ac arfer rheolaeth ar ystod o systemau corfforaethol, storfeydd amgen a daliadau etifeddol.

Fframwaith ar gyfer rheoli gwybodaeth trwy'r gwahanol adegau yn y cylch oes

Mae ein Polisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion yn cynnwys gofynion Rhyddid Gwybodaeth a Safonau Rheoli Gwybodaeth. Mae'r polisi'n diffinio'r safonau y dylid eu cyrraedd wrth reoli cofnodion a gwybodaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cofnodion hanfodol a phwysig yn cael eu hadnabod. Mae hefyd yn nodi sut y dylai Llywodraeth Cymru ddal cofnodion sy'n angenrheidiol, yn ddigonol, yn amserol, yn ddibynadwy ac yn gyson ag angen gweithredol, ac yn sicrhau bod rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol yn cael eu cyflawni. Mae'n diffinio'r rolau a chyfrifoldebau ar gyfer creu gwybodaeth, ei chadw'n ddiogel, ei chyrchu, ei newid a'i gwaredu. Cymeradwyir y polisi gan ein Hysgrifennydd Parhaol.

Mae tîm Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion canolog yn monitro'r prosesau hyn gyda chymorth y Rheolwyr Gwybodaeth a Hysbysrwydd Adrannol a Swyddogion Cymorth Rheoli Cofnodion sy'n gweithio mewn adrannau, swyddfeydd rhanbarthol a swyddfeydd y tu allan i Gymru.

Mae iShare yn galluogi'r holl staff i storio a chyrchu dogfennau gwybodaeth hyd at lefel "SWYDDOGOL-SENSITIF", gan gynnwys negeseuon e-bost wedi'u cadw yn y cynllun ffeiliau corfforaethol. Mae'r Swyddog Cofnodion Adrannol yn gyfrifol am brosesau rheoli cofnodion electronig, ac am y cofnodion a gwybodaeth hŷn ar lefel "Cyfyngedig"/"SWYDDOGOL-SENSITIF" sy'n dal i gael eu rheoli mewn ffeiliau papur traddodiadol.

Cyflawnir prosesau cadw a gwaredu yn unol â'n Hatodlen Cadw a Gwaredu gorfforaethol. Mae'r rhain yn seiliedig ar ganllawiau'r Archifau Cenedlaethol a gofynion deddfwriaethol. Caiff canllawiau'r Archifau Cenedlaethol ar gyfer parhad digidol eu cymryd i ystyriaeth yn ein gweithdrefnau rheoli a throsglwyddo cofnodion ac mae parhad digidol wedi'i gynnwys yn y broses gorfforaethol ar gyfer sefydlu prosiectau newydd.

Mae'r Polisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion yn nodi'r canllawiau ar gyfer rheoli e-bost a chadw negeseuon e-bost busnes ar iShare. Mae'r Polisi'n amodi y dylai'r holl negeseuon e-bost eraill gael eu dileu'n awtomatig ar ôl un flwyddyn.

Dull diffiniedig mewn perthynas â Thechnoleg a Systemau

Mae ein His-adran TGCh yn gyfrifol am Strategaeth TGCh Gorfforaethol Llywodraeth Cymru, a threfniadau llywodraethu cysylltiedig, ynghyd â sicrhau bod gwasanaethau TGCh a ddarperir trwy gontract TGCh Merlin yn cael eu darparu i'r lefelau cytunedig o ran y ddarpariaeth a gwerth am arian.

Fframwaith sefydledig ar gyfer asesu risg a rheoli risg gwybodaeth

Mae gan Lywodraeth Cymru bolisiau sy'n sicrhau ein bod yn adolygu'r risgiau ac yn rheoli a diogelu ein data trwy gydol ei gylch oes. Caiff y polisiau eu nodi ar gyfer staff ar ein Mewnwyd (Connect) ac maent yn hygyrch ar iShare. Mae pob system TG newydd, a phob uwchraddiad sylweddol i systemau TG presennol, yn cael asesiad risg gan ein Huned Ddiogelwch Adrannol yn unol â safonau Sicrwydd Gwybodaeth Llywodraeth EM cyn eu bod yn cael eu rhoi ar waith.

Caiff Risg Gwybodaeth ei ddiffinio yn [Natganiad Archwaeth Risg](#) ein Huwch-berchennog Risg Gwybodaeth fel rhan o'n portffolio risgiau cyffredinol sy'n ymwneud â chyfrinachedd, cyfanrwydd ac argaeledd gwybodaeth o fewn Llywodraeth Cymru, ar ffurfiau electronig a phapur.

Rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol rheoli'r risgiau hyn yn dda er mwyn lleihau i'r eithaf yr effaith bosibl ar weithrediadau ac enw da Llywodraeth Cymru, ac er mwyn diogelu unrhyw wybodaeth bersonol. Mae tryloywder ehangach yn cael sylw hefyd fel rhan annatod o'n Cofrestr Risgiau Corfforaethol ac mae hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd.

Cyfrifoldeb yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yw ein polisi ar gyfer rheoli risg gwybodaeth, a gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau a roddwyd ar waith. Ein Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yw hwn ar hyn o bryd. Fe'i cefnogir gan Ddirprwy Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth, sef Ymgynghorydd Diogelwch Llywodraeth Cymru. Mae'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r polisi ac am ei adolygu'n rheolaidd.

Dull diffiniedig o sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a rheoleiddiol

Mae gan Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru a/neu'r Prif Weithredwr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth, sydd yn ei dro'n atebol i Brif Weinidog Cymru.

Mae'r Swyddog Cofnodion Adrannol, y tîm Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion a'r tîm Arfarnu Hanesyddol yn sicrhau bod ein gweithdrefnau rheoli gwybodaeth a chofnodion yn ymgorffori gofynion y Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus a deddfwriaeth rheoli gwybodaeth arall. Maent yn gweithio gyda Rheolwyr Gwybodaeth a Hysbysrwydd Adrannol a Swyddogion Cymorth Rheoli Cofnodion lleol i sicrhau ansawdd ein prosesau a rhoi arweiniad i staff ynghylch eu cyfrifoldebau unigol. Rhoddir arweiniad ynghylch cydymffurfio â hawlfraint gan y Llyfrgell.

Mae'n rhaid ceisio cyngor gan yr Uned Hawliau Gwybodaeth ynghylch cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Gwybodaeth, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth

Amgylcheddol. Rydym yn egluro sut yr ydym yn trin gwybodaeth personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ar ein mewnwyd: <http://gov.wales/about/foi/policies/?lang=cy>.

Mae ein [Cynllun Cyhoeddi](#) yn ei gwneud yn haws cael mynediad at ein gwybodaeth, fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Mae'r holl systemau TG newydd sy'n prosesu data personol mewn ffyrdd newydd yn cael Aseiad o'r Effaith ar Breifatrwydd cyn eu rhoi ar waith. Rhoddir arweiniad ynghylch y gofynion o ran Diogelu Data i'r holl staff ac mae hyfforddiant yn orfodol i'r rhai sy'n trin data personol yn rheolaidd. Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn atebol am sicrhau bod risgiau rhannu data'n cael eu hasesu a bod camau lliniaru priodol yn cael eu cymryd mewn amgylchiadau diffiniedig.

Mae ein Polisi Rhannu Gwybodaeth yn pwysleisio bod rhannu gyda phartneriaid allanol yn ganolog i'n hymrwymadau i dryloywder ond mae hefyd yn cyfeirio staff at yr ystyriaethau o ran deddfwriaeth, diogelwch a pholisïau y mae angen iddynt eu cymryd i ystyriaeth.

Mae model aeddfedrwydd/fframwaith sgiliau wedi'i sefydlu i ddatblygu galluedd a diwylliant sefydliadol ar gyfer rheoli gwybodaeth

Defnyddir Model Aeddfedrwydd Rheoli Gwybodaeth trawslywodraethol (gweler Atodiad 1) i asesu galluedd a diwylliant rheoli gwybodaeth yn Llywodraeth Cymru.

Mae modiwl e-Ddysgu ar [Sgiliau Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion](#) craidd ar gael ar ein mewnwyd.

Rydym wedi datblygu ein [Rhaglen Datblygiad Proffesiynol mewn Rheoli Gwybodaeth a Hysbysrwydd](#) ni ein hunain sy'n amcanu at roi'r sgiliau rheoli gwybodaeth a hysbysrwydd angenrheidiol i staff i'w cynorthwyo yn eu gwaith. Mae'r cwrs wedi cael ei achredu gan Agored Cymru. Mae manylion y modiwlau i'w gweld yma: <http://wales.eliesha.com/CourseOutline.aspx?Course=417>

3.2.3 Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Byddwn yn annog staff i ddefnyddio iShare yn well. Bydd hyn yn cynnwys:

- Archwilio'r nodwedd Cipio E-bost yn Awtomatig sy'n ei gwneud yn bosibl i ffolderi yn Outlook gael eu cysylltu â ffeiliau iShare, gan adlewyrchu'r rheolaeth ar negeseuon e-bost o fewn Outlook yn iShare (er nad yw o fewn cwmpas y prosiect E-bost a Chofnodion RC, bydd y nodwedd hon yn darparu ffordd symlach i bobl symud cofnodion e-bost i iShare);
- Porwr iShare: Mae Llywodraeth Cymru yn cyrchu iShare trwy'r Navigator ond yn dal y drwydded i ddefnyddio pen blaen sy'n seiliedig ar borwr a allai fod yn haws i'w ddefnyddio. Gallai'r porwr wella cadernid hefyd trwy gynnig ffordd arall o gyrchu dogfennau os nad yw'r Navigator yn gweithio (er nad yw'n eglur eto a fydd yr ail ddefnydd hwn yn bosibl yn amgylchedd Llywodraeth Cymru);

- Chwiliad Newydd: mae deall sut i gael y gorau o'r offeryn chwilio wedi cael ei adnabod fel rhwystr allweddol i fodlonrwydd defnyddwyr ar iShare. Bydd y prosiect hwn yn cynnwys ffocws ar gyfleu potensial y cyfleusterau chwilio newydd yn iShare a phryd i ddefnyddio'r rhain a'r chwiliad manylach gwreiddiol, yn ogystal ag archwilio'r potensial i ffurfweddu'r chwiliad hawdd newydd er mwyn diwallu anghenion Llywodraeth Cymru yn well.
- Byddwn yn mynd i'r afael â'r camgymhariad rhwng gofynion unigolion a systemau TG integredig, ac yn diweddarau prosesau sy'n cyfyngu ar arferion rhannu gwybodaeth. Bydd hyn yn cynnwys gorchymyn bod cydweithio o ran TGCh/Rheoli Gwybodaeth yn digwydd ar gyfer pob prosiect newydd.
- Byddwn yn hybu sgiliau rheoli gwybodaeth fel rhan o Gymwyseddau'r Gwasanaeth Sifil trwy ein proses rheoli perfformiad.
- Byddwn yn symleiddio ac yn gwella mynediad at y canllawiau rheoli gwybodaeth a ddarperir ar gyfer staff ar y Fewnrwyd.

3.3 Mae gwybodaeth yn addas ar gyfer y diben yn Llywodraeth Cymru

“Mae'n bwysig sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd digonol i ateb y diben y mae wedi'i bwriadu ar ei gyfer. Mae hyn yn cynnwys y prif ddiben a hefyd unrhyw ail ddibenion ychwanegol y gellir ei defnyddio ar eu cyfer.”

3.3.1 Offer a ffynonellau gwybodaeth allweddol

- Cofrestrau Asedau Gwybodaeth
- Strategaeth Data Agored
- Strategaeth TGCh
- iShare, ein System Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electronig
- Polisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion

3.3.2 Sut yr ydym yn ateb y gofynion

Dull diffiniedig o bennu'r ansawdd cywir ar gyfer gwybodaeth fel ei bod yn ateb ei diben

Mae'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth yn manylu ar nodweddion pob Ased Gwybodaeth. Mae'r perchnogion, ynghyd â'r Unedau Busnes a'r tîm Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion, yn pennu'r safonau ar gyfer y rhai sy'n rhoi data a gwybodaeth i mewn er mwyn sicrhau bod y prif ddibenion (ac unrhyw ail ddibenion) yn cael eu hateb. Er mwyn i brosiectau newydd gael eu cymeradwyo, mae'n ofynnol bod ansawdd yn cael sylw mewn Achosion Busnes ac fel rhan o broses y Bwrdd Cytuno â Newid.

Dylai gofynion o ran data gael eu nodi'n glir yn seiliedig ar anghenion gwybodaeth Llywodraeth Cymru a dylid sicrhau bod prosesau casglu data'n cyfateb i'r gofynion hyn. Rydym yn diffinio data o ansawdd da fel a ganlyn:

Mae'n rhaid i ddata fod...	
Yn gywir	Yn ddigon cywir ar gyfer y dibenion bwriadedig
Yn ddilys	Wedi'i gofnodi ac yn cael ei ddefnyddio mewn modd sy'n cydymffurfio â'r gofynion perthnasol
Yn ddibynadwy	Yn adlewyrchu prosesau casglu data sefydlog a chyson ar draws manau casglu a thros amser
Yn amserol	Yn cael ei gipio mor gyflym â phosibl ar ôl y digwyddiad neu'r gweithgaredd ac ar gael ar gyfer y defnydd bwriadedig o fewn cyfnod rhesymol
Yn berthnasol	Yn berthnasol i'r dibenion y bydd yn cael ei ddefnyddio ar eu cyfer
Yn gyflawn	Dylai gofynion o ran data gael eu nodi'n glir yn seiliedig ar anghenion gwybodaeth y corff a dylid sicrhau bod prosesau casglu data'n cyfateb i'r gofynion hyn

Mae [Datganiad Preifatrwydd](#) Llywodraeth Cymru ar y rhynggrwyd yn egluro sut yr ydym yn trin data personol.

Mae dyletswydd ar staff Llywodraeth Cymru i sicrhau bod data a gaiff ei ryddhau i'r cyhoedd yn gywir ac yn ystyrlon. Mae ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau mwy o gysondeb yn y dull mewn perthynas ag ansawdd gwybodaeth ar draws y gwahanol systemau a phrosesau trwy ddull mwy cydgyssylltiedig.

Rydym yn cynnal Aseidiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd i sicrhau bod cyfrinachedd, cyfanrwydd a hygyrchedd gwybodaeth bersonol yn cael eu cynnal.

Prosesau a threfniadau llywodraethu sefydledig i fonitro a sicrhau ansawdd gwybodaeth a data

Mae gwybodaeth a data'n gyfrifoldeb i bawb ac mae'n rhaid i staff beidio â dibynnu ar eraill i gyflawni eu cyfrifoldebau am ansawdd gwybodaeth a data. Mae'r holl staff yn gyfrifol am sicrhau yr ymlynir wrth y safonau gwybodaeth a data perthnasol ac am sicrhau ansawdd da ar gyfer gwybodaeth a data.

Fodd bynnag, cyfrifoldeb pob Perchennog Asedau Gwybodaeth yw adnabod unrhyw asedau gwybodaeth a ddelir o fewn y maes y maent hwy'n gyfrifol amdano, a sicrhau eu bod yn cael eu dogfennu yng Nghofrestr Asedau Gwybodaeth eu Hadran.

Mae'r tîm Ystadegau wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Ystadegol ac mae ganddo gynrychiolydd ar Rwydwaith Hyrwyddwyr Ansawdd Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth.

Maent yn cynnal sesiynau hyfforddi gwirio data a rheoli ansawdd ystadegol ar gyfer yr holl staff ystadegol a dadansoddol. Maent hefyd yn cynnal rhaglen reolaidd o adolygiadau cymheiriaid (o allbynnau ystadegol, cynlluniau sicrhau ansawdd, asesiadau risg rheolaeth ar ddatgelu a dulliau o archwilio data gweinyddol).

Ar gais y tîm Ystadegau cynhaliodd y tîm Archwilio Mewnol adolygiad o'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn 2014. Mae'r tîm bellach wedi rhoi'r argymhellion a ddeilliodd o'r archwiliad ar waith i raddau helaeth.

Yn ddiweddar, mae Awdurdod Ystadegau'r DU wedi cyhoeddi [Safon Reoleiddiol](#) ar gyfer sicrhau ansawdd data gweinyddol a ddefnyddir at ddibenion ystadegol ac rydym wrthi'n gweithio tuag at gyrraedd y safon hon ar hyn o bryd.

Dull diffiniedig o gofnodi'r berthynas rhwng gwybodaeth a'i thechnoleg, platfform a fformat ategol

Mae ffyrdd o ysgogi gwell ansawdd data yn cael eu hystyried fel rhan o ddylunio systemau technegol (e.e. trwy gwymprestrau neu offer adrodd mwy effeithiol). Y nod yw sicrhau ein bod yn darparu platfformau a fformatau sy'n gyson â'r ffordd y bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio, ac mae hyn yn cael ei asesu yn awr o ran ysgogi defnydd allanol o'n data yn ogystal ag ateb ein gofynion mewnol. Mae ein Strategaeth TGCh yn nodi'r dull hwn.

Mae'r Awdurdod Llundio Datrysiadau a phroses y Ffurflen Cymeradwyo Prosiect TGCh a nodir o fewn "Strategaethau Cysylltiedig" (a grybwyllir ar dudalen 4) yn darparu'r dull diffiniedig o gofnodi'r berthynas rhwng gwybodaeth a'i thechnoleg, platfform a fformat ategol.

3.3.3 Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Mae Adran TGCh Llywodraeth Cymru yn darparu ac yn rheoli'r "fframwaith craidd" y mae adrannau'n gweithredu ynddo. Y tu allan i'r "fframwaith craidd" hwn mae nifer o systemau â gallu swyddogaethol gorgyffwrddol wedi cael eu datblygu gan wahanol rannau o Lywodraeth

Cymru. Bydd yr Awdurdod Llundain Datrysiaid, os caniateir iddo ddefnyddio'i awdurdod, yn atal y lluosogi hwn trwy gyfarwyddo adrannau i ddefnyddio cymwysiaid sydd eisoes yn bodoli o fewn ystâd Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn ystyried y posibilrwydd o weithredu Cynllun Gwella Ansawdd Gwybodaeth i fynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gwella Ansawdd Gwybodaeth. Gallai hyn gynnwys cyflwyno templedi newydd ar gyfer dogfennau a fydd wedi'u bwriadu i wella'r cofnod corfforaethol.

3.4 Mae gwybodaeth yn safonedig ac yn gysylltadwy yn Llywodraeth Cymru

“Mae'r cyfleoedd ar gyfer manteisio ar wybodaeth yn cynyddu'n sylweddol pan drefnir ei bod ar gael ar ffurfiau safonedig a chysylltadwy”

Mae gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol broses sicrhau ansawdd. Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i noddwyr adrannol gyflwyno cynigion i [Fwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru](#) trwy gamau allweddol wrth ddatblygu gofynion data; Cynnig Datblygu i Hysbysu ynghylch Gofyniad a Chynnig Terfynol. Mae Cynnig Terfynol yn arwain at gyhoeddi Hysbysiad Newid Set Ddata. Mandad gwybodaeth i'r GIG yw hwn. Cyhoeddir Hysbysiaid Newid Set Ddata ar [Gyfeiriadur Data GIG Cymru](#) y gellir ei gyrchu ar y rhyngwyd a mewnwyd y GIG. Mae gofynion data Llywodraeth Cymru yn cael eu hasesu'n gyfreithiol ac o ran cyfraith gyffredin hefyd gan [Fwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Cymru](#)

3.4.1 Offer a ffynonellau gwybodaeth allweddol

- Strategaeth Data Agored
- Strategaeth TGCh

3.4.2 Sut yr ydym yn ateb y gofynion

Ymrwymiad i safonau agored

Rydym yn ymrwymedig i fabwysiadu Safonau Agored, lle bynnag y bo'n bosibl, ac i hyrwyddo'r rhain yn y maes datblygu. Rydym yn cyhoeddi data mewn safon agored, y cytunwyd arni'n rhyngwladol a hwnnw'n ddata y gall eraill ei aildefnyddio a'i ailwrpasu. Rydym yn ystyried safonau agored ar gyfer mathau eraill o wybodaeth (cyllid, caffael, daearyddol a.y.b.).

Fframwaith sefydledig ar gyfer cysylltu gwybodaeth

Mae dogfennaeth a ddelir ar y Gronfa Ddata Prosiectau yn cael ei chyrru o iShare a data ariannol o'r system SAP ac mae cysylltiadau rhwng y ddwy system. Mae'r System Orlhain Cyngor Gweinidogol ar gyfer rheoli gohebiaeth swyddogol yn cysylltu â dogfennau ar iShare.

Dull pragmatig o fudo i ddata safonedig, cysylltadwy³

Mae'r Strategaeth Data Agored yn nodi sut yr ydym yn amcanu at ddatblygu ymhellach ein gallu i ddarparu data mewn fformatau safonedig, cysylltadwy, i'w gwneud yn bosibl ei aildddefnyddio a'i gyhoeddi mewn fformatau eraill.

3.4.3 Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Byddwn yn parhau â'n dull pragmatig o weithredu safonau agored a chorfforaethol a darparu data mewn fformatau safonedig, cysylltadwy.

Byddwn yn sefydlu rhaglen waith i sefydlu 'cydsyniad i gysylltu' ar gyfer arolygon a dechrau casglu data sy'n gysylltadwy mewn modd penderfyniaethol.

3.5 Mae gwybodaeth yn cael ei haildddefnyddio

“Gall gwerth gwybodaeth gael ei luosogi trwy ei haildddefnyddio. Mae hyn yn galw am newid cyfeiriad meddwl – am feddwl y tu allan i seilos traddodiadol a mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am gyfleoedd i'w haildddefnyddio.”

3.5.1 Offer a ffynonellau gwybodaeth allweddol

- Polisi Rhannu Gwybodaeth
- Strategaeth Data Agored
- Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus a Datganiad Gorchwyl Cyhoeddus
- Cynllun Cyhoeddi a Chatalog Cyhoeddiadau Ar-lein

3.5.2 Sut yr ydym yn ateb y gofynion

Mynd ati'n rhagweithiol i gynnig cyfleoedd i aildddefnyddio

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn trefnu bod ei gwybodaeth ar gael i'w haildddefnyddio trwy ei gwefannau, <http://mylocalschool.wales.gov.uk/?lang=cym>, www.llyw.cymru, a setiau data trwy <https://statscymru.llyw.cymru> dan y Drwydded Llywodraeth Agored (OGL).

Mae datganiad gorchwyl cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar gael yn <http://gov.wales/about/foi/policies/public-task-statement/?lang=cy>.

³ Dull o gyhoeddi data strwythuredig fel ei fod yn gallu cael ei gydgyssylltu a dod yn fwy defnyddiol trwy ymholiadau semantig. Mae'n adeiladu ar dechnolegau Gwe safonol megis HTTP, RDF ac URIs, ond yn hytrach na'u defnyddio i wasanaethu tudalennau gwe ar gyfer darllenwyr dynol, mae'n eu hystyngi i rannu gwybodaeth mewn ffordd sy'n ei gwneud yn bosibl i'r wybodaeth gael ei darllen gan gyfrifiaduron. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl cysylltu ac ymholi ynghylch data o wahanol ffynonellau.

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru

Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru yn darparu fframwaith i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau a hwnnw'n uniongyrchol gysylltiedig ag iechyd, addysg, diogelwch a llesiant cymdeithasol pobl yng Nghymru.

Yn arbennig, mae'n ymwneud â'r sefydliadau hynny sy'n dal gwybodaeth am unigolion ac y mae angen iddynt rannu'r wybodaeth honno i ddarparu gwasanaethau effeithiol.

Mae'n elfen allweddol o'r Prosiect Rhannu Gwybodaeth Bersonol a arweinir gan Lywodraeth Cymru sy'n amcanu at wneud yn siŵr bod gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â darparwyr gwasanaethau priodol yn y trydydd sector a'r sector preifat, yn rhannu gwybodaeth bersonol am unigolion yn gyfreithlon, yn ddiogel ac yn hyderus.

Mae'r fframwaith yn hwyluso hyn trwy sefydlu gofynion a mecanweithiau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyfnewid gwybodaeth bersonol rhwng darparwyr gwasanaethau.

Mae'r holl Awdurdodau Lleol, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd, Heddluoedd, Gwasanaethau Tân, nifer fawr o elusennau a mudiadau yn y sector gwirfoddol yng Nghymru wedi ymrwymo i'r Cytundeb. Mae sefydliadau eraill, megis ysgolion, practisau meddygon teulu, Cymdeithasau Tai a rhai sefydliadau yn y sector preifat wedi llofnodi'r Cytundeb hefyd.

3.5.3 Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Byddwn yn myfyrio ar ein cyfrifoldebau newydd dan Reoliadau newydd Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus, yn enwedig ar gyfer y sector diwylliannol.

Rydym wedi cyhoeddi datganiad gorchwyl cyhoeddus i nodi ein gweithgareddau masnachu gwybodaeth yn eglur ac yn gryno.

Byddwn yn adnabod gwybodaeth a data y gallwn eu gwneud yn "agored" ac yn eu cyhoeddi ar ein gwefannau, www.llyw.cymru a <https://statscymru.llyw.cymru>
Byddwn hefyd yn ceisio sefydlu dull ar gyfer hyrwyddo gwybodaeth y gellir ei haildefnyddio.

Byddwn yn sicrhau mwy o gysondeb o ran trwyddedu (Trwydded Llywodraeth Agored) ar draws Llywodraeth Cymru. Gallai hyn gynnwys ymgeisio am drwydded meddalwedd Cynllun Masnachu Gwybodaeth yn Deg ar gyfer Llywodraeth Cymru gyfan.

3.6 Mae gwybodaeth gyhoeddus yn cael ei chyhoeddi

“Mae gwybodaeth gyhoeddus yn cynnwys yr wybodaeth wrthrychol, ffeithiol, amhersonol sy’n sail i redeg ac asesu gwasanaethau cyhoeddus ac i wneud penderfyniadau polisi, neu wybodaeth a gaiff ei chasglu neu ei chreu wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Dylai gwybodaeth gyhoeddus gael ei chyhoeddi, oni bai fod rhesymau tra phwysig dros beidio.”

3.6.1 Offer a ffynonellau gwybodaeth allweddol

- Strategaeth Data Agored
- Strategaeth Digidol yn Gyntaf
- Cynllun Cyhoeddi
- Catalog Cyhoeddiadau Ar-lein

3.6.2 Sut yr ydym yn ateb y gofynion

Fframwaith wedi'i sefydlu ar gyfer ymateb i rwymedigaethau cyfreithiol ynghylch mynediad cyhoeddus at wybodaeth

Mae gennym broses i ymateb i rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â mynediad at wybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Mae ein Huned Hawliau Gwybodaeth yn rhoi arweiniad a chyngor ac yn ymdrin ag ymholiadau ynghylch ein perfformiad o ran cyrraedd y targedau.

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i fod mor agored â phosibl, rydym wedi llunio “Mynegai Data Agored” neu restr o adnoddau data agored presennol mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus Cymru (<http://gov.wales/about/foi/open-data/?lang=cy>).

Fframwaith wedi'i sefydlu ar gyfer mynd ati'n rhagweithiol i gategoreiddio gwybodaeth o ran ei pherthnasedd a'i haddasrwydd i'w chyhoeddi

Rydym yn cynnal [Cynllun Cyhoeddi](#) fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae hwn yn amcanu at ei gwneud yn hawdd i bobl gyrchu gwybodaeth ynghylch yr hyn yr ydym yn ei wneud a sut yr ydym yn gwario ein cyllideb. Gallant asesu pa mor dda yr ydym yn mynd i'r afael â'n blaenoriaethau a sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau. Darperir mynediad at ein polisiau a'n gweithdrefnau gyda dolenni i'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig.

Sianelau a phrosesau sefydledig ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth

Mae cyhoeddiadau ac adroddiadau ymchwil Llywodraeth Cymru ar gael i ddechrau trwy sianelau rhyngrwyd Llywodraeth Cymru. Dros amser mae manylion cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru yn cael eu hychwanegu at yr Archif Cyhoeddiadau hanesyddol ac at y [Catalog Cyhoeddiadau Ar-lein](#).

Mae'r Catalog Ar-lein yn helpu'r cyhoedd i ddod o hyd i fanylion eitemau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gymreig. Mae'r Catalog Ar-lein yn cynnwys ystod eang o ddogfennau gan gynnwys cylchlythyrau, adroddiadau ystadegol, strategaethau, papurau ymgynghori, adroddiadau ymchwil a nodiadau cyngor technegol. Mae'r rhan fwyaf o'r cyhoeddiadau hyn ar gael yn rhwydd, er nad yw rhai eitemau hyn o bosibl ond yn gallu cael eu hadfer o'n harchif ac felly ond yn gallu cael eu gweld yn y Ganolfan Gyhoeddiadau yng Nghaerdydd.

Gall pobl sydd heb fynediad at y Rhyngrwyd gyrchu gwybodaeth a data trwy'r Ganolfan Cyswllt Cyntaf trwy lythyr, trwy'r e-bost neu dros y ffôn.

http://gov.wales/contact_us/?lang=cy

3.6.3 Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Byddwn yn adolygu ein Cynllun Cyhoeddi yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â newidiadau mewn deddfwriaeth, megis y broses yn y DU i weithredu Cyfarwyddeb 2013/37/EU sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2003/98/EC ar aildefnyddio gwybodaeth y sector cyhoeddus.

3.7 Mae dinasyddion a busnesau'n gallu cyrchu gwybodaeth amdanynt hwy eu hunain

“Dylai dinasyddion a busnesau allu cael mynediad at wybodaeth amdanynt hwy eu hunain, ynghyd ag eglurhad o'r modd y caiff ei defnyddio. Gall hyn fod naill ai ar gais neu, gorau oll, trwy drefnu ei bod ar gael yn ddiofyn. I bob pwrpas, dylid ystyried bod gwybodaeth o'r fath yn perthyn i'r dinesydd, er ei bod wedi cael ei rhoi yng ngofal corff cyhoeddus.”

Mae Deddf Diogelu Gwybodaeth 1998 yn rhoi'r hawl i unigolion gyrchu data personol (gwybodaeth amdanynt hwy eu hunain) a ddelir gan reolydd data.

Mae ein Huned Hawliau Gwybodaeth yn rhoi cyngor ac arweiniad ynghylch Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth.

3.7.1 Offer a ffynonellau gwybodaeth

- [Deddf Diogelu Data 1998](#)
- Arweiniad ynghylch Diogelu Data
- Arweiniad ynghylch trosglwyddo Deunydd â Marc Diogelu a Data Personol
- Trin Gwybodaeth Personol (Arweiniad ar gyfer Staff)
- Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Personol Cymru (WASPI)

3.7.2 Sut yr ydym yn ateb y gofynion

Fframwaith ar gyfer ymateb i rwymedigaethau cyfreithiol ynghylch mynediad dinasyddion at wybodaeth amdanynt hwy eu hunain a sut y mae wedi cael ei defnyddio

Lle'r ydym yn dal gwybodaeth am aelodau o'r cyhoedd, rydym wedi cytuno ar sianelau i alluogi pobl i gael mynediad at yr wybodaeth hon.

Wrth drin eich gwybodaeth bersonol, rydym yn addo:

- ei diogelu'n briodol a gwneud yn siŵr nad oes gan unrhyw un fynediad ati os na ddylai fod ganddynt;
- rhoi gwybod ichi os bydd angen inni ei rhannu gyda sefydliadau eraill i roi gwasanaethau cyhoeddus gwell ichi, a pha un a allwch wrthod hyn ai peidio;
- ystyried risgiau i breifatrwydd os ydym yn bwriadu defnyddio eich gwybodaeth bersonol mewn ffyrdd newydd;
- peidio â'i chadw am yn hwy nag y mae angen inni;
- peidio â threfnu ei bod ar gael ar gyfer defnydd masnachol (megis marchnata) heb eich caniatâd chi.

3.7.3 Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Cafodd y Cynllun Digidol yn Gyntaf⁴ ei gytuno gan y Cabinet ym mis Ebrill 2015. Ei ddiben yw disgrifio'r camau y mae angen i Lywodraeth Cymru eu cymryd i greu'r amgylchedd sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi'r sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau ar-lein rhagorol ar gyfer pobl a busnesau yng Nghymru. Cafodd hyn ei ailddatgan yng Nghynllun Gweithredu Digidol Llywodraeth Cymru, a ddatblygwyd i wella'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau digidol.

Mae Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru, sydd newydd gael ei benodi, yn llywio rhaglen eang o drawsnewid digidol er mwyn dwyn gwelliant sylfaenol i'r modd y mae'r gwasanaeth sifil yn gweithredu a sut y mae'r Llywodraeth yn rhyngweithio â dinasyddion. Mae gan y Prif Swyddog Digidol gyfrifoldeb am gyflawni'r Cynllun Gweithredu'n llwyddiannus, gan ganolbwyntio i ddechrau ar drawsnewid a gwella'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn darparu ei gwasanaethau trwy ddefnydd mwy cysylltiedig o TGCh. Mae cyfrifoldebau yn y dyfodol yn cynnwys arwain newid ar draws pob rhan o'r sector cyhoeddus gan gynnwys gwasanaethau iechyd, llywodraeth leol ac addysg er mwyn cyflawni arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau.

⁴ <http://gov.wales/docs/det/publications/150421-digital-first-cy.pdf>

Atodiad 1: Meini Prawf Asesu ar gyfer Aeddfedrwydd Rheoli Gwybodaeth

ADRAN 1: GWERTH GWYBODAETH				
1.1 Cyfleu a Gwireddu Gwerth				
Nod: Mae'r sefydliad yn cadarnhau gwerth gwybodaeth mewn egwyddor ac yn cefnogi'r broses o wireddu'r gwerth yn ymarferol				
Meini Prawf	Maes datblygu	Boddhaol	Da	Arfer gorau
Pennu cyfeiriad	Mae'r sefydliad yn cydnabod yr angen i bennu nodau ar gyfer rheoli gwybodaeth, ond nid yw'n gwneud hynny ar lefel strategol eto.	Mae'r sefydliad wedi pennu nodau strategol amserol ar gyfer rheoli gwybodaeth. Mae'r rhain mewn sefyllfa i gefnogi cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau a chyfrifoldebau cyfreithiol.	Mae gan y sefydliad strategaeth/gweledigaeth gydgefnogol ar gyfer diogelu, rheoli a manteisio ar wybodaeth. Mae'n pennu nodau cymesur i fynd i'r afael â risgiau allweddol a gwella galluedd a diwylliant.	Mae'r sefydliad wedi cadarnhau ei strategaeth/gweledigaeth ar gyfer gwybodaeth fel rhan annatod o strategaeth/gweledigaeth gorfforaethol ehangach. Mae'n cael ei hadolygu'n rheolaidd ac mae'n cael ei chydabod fel offeryn allweddol sy'n galluogi canlyniadau busnes.
Dweud wrth staff pam fod gwybodaeth o bwys	Mae'r sefydliad yn cydnabod bod gwerth i'r wybodaeth y mae'n ei dal ac yn gweithio gyda hi, ond nid yw'n diffinio hyn yn ffurfiol ar gyfer staff eto.	Mae'r sefydliad yn diffinio gwerth gwybodaeth ar gyfer staff yn y polisi rheoli gwybodaeth. Mae hwn yn pwysleisio rhwymedigaethau a chyfrifoldebau cyfreithiol.	Mae'r sefydliad yn diffinio gwerth gwybodaeth ac ymddygiadau gofynnol ar draws polisiau a chanllawiau ategol a chysylltiedig.	Mae'r sefydliad yn sicrhau bod gwerth gwybodaeth yn cael ei ddiffinio trwy brosesau busnes safonol. Mae negeseuon allweddol yn cael eu hyrwyddo gan uwch aelodau o staff a rheolwyr.
Cyhoeddi gwybodaeth a galluogi mynediad ati	Mae'r sefydliad yn cydnabod yr angen i wireddu gwerth ei wybodaeth, ond amrywiol yw ei berfformiad o ran agor mynediad ati a chyhoeddi data tryloywder.	Mae'r sefydliad wedi sefydlu fframwaith sy'n ei gynorthwyo i gyrraedd safonau gofynnol o ran agor mynediad at wybodaeth a chyhoeddi data tryloywder.	Mae gan y sefydliad ddull cyson ar y cyfan o roi sylw i dryloywder, data agored a galluogi mynediad at wybodaeth sy'n gysylltiedig â'i strategaeth/gweledigaeth ar gyfer gwybodaeth. Mae'n cyhoeddi'r ymrwymiad hwn.	Mae'r sefydliad yn sefydlu trefniadau rheoli gwybodaeth da fel offeryn galluogi ar gyfer tryloywder a llywodraeth agored. Mae'n ymgysylltu â dinasyddion ac yn mynd ati'n rhagweithiol i gyhoeddi gwybodaeth oni bai fod rheswm tra phwysig dros beidio.

ADRAN 1: GWERTH GWYBODAETH

1.2 Rheoli Gwybodaeth fel Ased Gwerthfawr

Nod: Mae'r sefydliad yn rheoli, yn diogelu ac yn manteisio ar ei asedau gwybodaeth er mwyn cael y gwerth mwyaf posibl

Meini Prawf	Maes datblygu	Bodddhaol	Da	Arfer gorau
Diffinio gwybodaeth fel ased	Mae'r sefydliad yn cydnabod yr angen i reoli ei wybodaeth fel ased, ond mae'n diffinio ac yn categorio asedau gwybodaeth ar lefel rhy uchel neu rhy isel o ran gronynogrwydd.	Mae diffiniad y sefydliad o ased gwybodaeth yn adlewyrchu gofynion y Fframwaith Polisi Diogelwch ac mae ar lefel o ran gronynogrwydd sy'n cefnogi trosolwg a rheolaeth.	Mae diffiniad y sefydliad o ased gwybodaeth yn cael ei ddehongli'n gyson ar draws polisïau a chanllawiau ategol a chysylltiedig. Mae'n cwmpasu gwybodaeth heb strwythur a gwybodaeth strwythuredig.	Mae diffiniad y sefydliad o ased gwybodaeth wedi'i sefydlu'n llawn o fewn y busnes. Mae'n darparu sail ar gyfer llywodraethu effeithiol ac mae staff yn ei ddefnyddio i ddisgrifio'r wybodaeth y maent yn ei dal ac yn gweithio gyda hi.
Cadarnhau perchnogaeth ar asedau gwybodaeth	Mae'r sefydliad yn cydnabod yr angen i adnabod ei asedau gwybodaeth mwyaf sensitif a gwerthfawr, ond nid yw wedi gwneud hynny eto, nac wedi cadarnhau pwy sy'n berchen arnynt.	Mae'r sefydliad wedi adnabod ei asedau gwybodaeth mwyaf sensitif a gwerthfawr ac wedi cadarnhau pwy sy'n berchen arnynt. Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn darparu sicrwydd yn erbyn risgiau a materion allweddol.	Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn cael eu penodi'n gyson ar draws y sefydliad. Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn deall eu rôl ac yn rhoi sicrwydd rheolaidd ynghylch diogelu, rheoli cylch oes a manteisio ar eu hasedau gwybodaeth.	Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn cyfranogi yng nghynllun y sefydliad i sefydlu'r diwylliant cywir. Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn cydweithio i sicrhau bod asedau gwybodaeth yn cael eu defnyddio'n llawn fel bod eu gwerth yn gallu cael ei wireddu'n fewnol ac yn allanol.
Catalogio asedau gwybodaeth	Mae'r sefydliad yn cydnabod yr angen i gatalogio'i asedau gwybodaeth, ond mae'n gwneud hynny i raddau cyfyngedig neu ar lefel rhy uchel neu rhy isel.	Mae'r sefydliad yn defnyddio fframwaith megis Cofnod Asedau Gwybodaeth i gatalogio asedau gwybodaeth sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol neu wybodaeth sy'n bwysig i'r busnes. Mae nodweddion sensitif a gofynion trin allweddol yn cael eu cofnodi.	Mae'r sefydliad yn catalogio ystod eang o asedau gwybodaeth heb strwythur yn ogystal â rhai strwythuredig. Mae'n gyson yn cofnodi cyddestun sydd o gymorth i'w rheoli'n effeithiol gan gynnwys gwerth, risg, cynnwys a chylch oes.	Mae dull y sefydliad o gatalogio asedau gwybodaeth yn hybu dealltwriaeth am yr holl wybodaeth y mae'n ei dal ac y mae'n gyfrifol amdani. Mae gofynion busnes yn cael eu cofnodi yn unol â chanllawiau Parhad Digidol yr Archifau Cenedlaethol

ADRAN 2: GWYBODAETH A THECHNOLEG ATEGOL

2.1 Yr Amgylchedd Technolegol

Nod: Mae'r amgylchedd technolegol o gymorth i reoli, diogelu a manteisio ar wybodaeth

Meini Prawf	Maes datblygu	Boddhaol	Da	Arfer gorau
Rheoli gwybodaeth ddigidol	Mae'r sefydliad yn cydnabod yr angen i reoli gwybodaeth ddigidol o'r adeg y caiff ei chreu tan yr adeg y caiff ei gwaredu, ond nid yw systemau corfforaethol yn cefnogi rheolaeth cylch oes eto.	Mae gan y sefydliad storfa gorfforaethol ddiffiniedig ar gyfer storio gwybodaeth sy'n cefnogi rheolaeth cylch oes. Arferir rheolaeth ar storfeydd eraill a daliadau etifeddol.	Mae'r sefydliad yn mabwysiadu dull cyson o ran rheolaeth cylch oes ar wybodaeth ar draws ystod o systemau corfforaethol. Gall gwybodaeth gael ei chipio a'i chadw neu ei gwaredu yn unol â pholisi cadw a gwaredu diffiniedig.	Mae'r sefydliad yn defnyddio safonau cyffredin ac mae cymwysiadau rheoli gwybodaeth yn gweithredu mewn modd rhagweladwy. Mae systemau corfforaethol yn cael yr effaith leiaf ar grewyr gwybodaeth a gellir cadw gwybodaeth ar ffurf ddefnyddiadwy hyd y bo'n rhesymol.
Canfod, cyfnewid a manteisio ar wybodaeth ddigidol	Mae'r sefydliad yn cydnabod yr angen i ddarganfod ac adfer gwybodaeth sydd wedi'i storio, ond mae swyddogaethau chwilio'n annibynadwy ac mae'r amgylchedd technolegol yn creu rhwystrau artiffisial.	Mae'r sefydliad wedi sicrhau bod swyddogaethau chwilio'n diwallu'r anghenion busnes cyfredol. Mae'n lleihau rhwystrau artiffisial o fewn yr amgylchedd technolegol a allai gyfyngu ar weithgareddau i fanteisio ar wybodaeth.	Mae systemau corfforaethol yn hawdd i'w defnyddio ac i lywio drwyddynt ac maent wedi'u strwythuro'n gyson. Mae'r drefn o ddarparu offer rhannu gwybodaeth o gymorth i ddarganfod a chyfnewid gwybodaeth ar draws y rhwydwaith.	Mae systemau corfforaethol yn galluogi cydweithio effeithiol rhwng rhanddeiliaid mewnol a chyda phartneriaid allanol. Maent yn hybu llifoedd gwybodaeth/gwaith ac yn darparu llwybrau wedi'u hawtomeiddio ar gyfer cyhoeddi data.
Cyrchu gwybodaeth ddigidol	Mae'r sefydliad yn cydnabod yr angen i sicrhau diogelwch gwybodaeth sensitif, ond mae diffyg rheolaethau priodol mewn systemau allweddol.	Mae'r sefydliad wedi sefydlu rheolaethau mewn systemau allweddol lle caiff gwybodaeth sensitif ei dal, ac mewn perthynas â chyfryngau symudadwy i ddiogelu rhag ymddygiad maleisus.	Mae systemau corfforaethol yn gyson yn cynorthwyo staff i weithio gyda gwybodaeth sensitif a'i phrosesu'n ddiogel, gan leihau'r risg y bydd datrysiadau eraill yn cael eu defnyddio.	Mae systemau corfforaethol yn hybu'r drefn o ddiogelu gwybodaeth sensitif rhag cael ei datgelu, ei haddasu a'i difa heb awdurdod trwy gydol ei chylch oes. Mae rheolaethau'n hyblyg ac yn cael yr effaith leiaf bosibl ar ddefnyddwyr.

ADRAN 2: GWYBODAETH A THECHNOLEG ATEGOL

2.2 Parhad Gwybodaeth Ddigidol

Nod: Mae'r sefydliad yn cymryd camau rhagweithiol i sicrhau parhad ei wybodaeth, dros amser a thrwy newid

Meini Prawf	Maes datblygu	Boddhaol	Da	Arfer gorau
Deall pa wybodaeth sy'n cael ei dal	Mae'r sefydliad yn cydnabod y gall ei wybodaeth fod yn agored i niwed o ganlyniad i'w lleoliad, ei hoedran neu ei fformat, ond nid yw eto wedi cynnal asesiad na llunio cynllun parhad digidol.	Mae'r sefydliad yn gwybod ble mae ei asedau gwybodaeth mwyaf gwerthfawr ac agored i niwed yn cael eu storio ac mae wedi adnabod natur agored i niwed o ganlyniad i oedran neu fformat yr wybodaeth. Mae wedi adnabod amcanion allweddol o ran parhad digidol	Mae'r sefydliad wedi cymryd camau cymesur i ddeall cynnwys ei storfeydd ffeiliau, gan gynnal dadansoddiad a blaenoriaethu risgiau a materion. Mae wedi datblygu cynllun parhad digidol.	Mae'r sefydliad yn defnyddio'i ddealltwriaeth i oleuo penderfyniadau ynghylch darparu cymwysiadau a rhesymoli seilwaith. Mae cynllunio parhad digidol yn helpu i lywio'r modd y defnyddir ac y manteisir ar wybodaeth fusnes gyfredol.
Deall sut y mae technoleg yn cefnogi defnyddioldeb	Mae'r sefydliad yn cydnabod bod technoleg yn cefnogi defnyddioldeb ei wybodaeth, ond nid yw wedi adnabod dibyniaethau allweddol eto.	Mae'r sefydliad wedi mapio'r systemau, platfformau a phrosesau technegol allweddol y mae ar ei asedau gwybodaeth mwyaf gwerthfawr a sensitif eu hangen i fod yn ddefnyddiadwy.	Mae'r sefydliad wedi dogfennu ar lefel briodol sut y mae technoleg o gymorth i wneud ei asedau gwybodaeth yn ddefnyddiadwy. Mae wedi diffinio llifoedd gwybodaeth/gwaith allweddol.	Mae'r sefydliad wedi sefydlu ystyriaeth i dechnoleg ategol o fewn ei ddull o reoli asedau gwybodaeth; mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol wedi'u pennu ac mae effaith newidiadau'n cael ei thracio.
Ystyried parhad digidol cyn cyflwyno newid	Mae'r sefydliad yn cydnabod yr angen i ystyried gofynion busnes ar gyfer rheoli gwybodaeth wrth weithredu newid a phrosesau caffael ym maes TG, ond nid oes ganddo ddull ffurfiol o wneud hynny.	Mae'r sefydliad wedi sefydlu mecanweithiau ffurfiol i roi cymorth i ystyried gofynion busnes o ran rheoli gwybodaeth yn ystod newidiadau pwysig a phrosesau caffael ym maes TG.	Mae'r sefydliad yn sicrhau bod newidiadau a phrosesau caffael ym maes TG yn gyson yn ystyried gofynion busnes o ran rheoli gwybodaeth. Mae ateb y rhain yn cael ei gydnabod yn faen prawf llwyddiant craidd.	Mae'r sefydliad yn cynnal ei ddealltwriaeth am ei ofynion busnes o ran rheoli gwybodaeth. Mae bygythiadau a chyfleoedd posibl mewn perthynas ag asedau gwybodaeth yn goleuo penderfyniadau yn ystod newid mewn modd gweithredol.

ADRAN 3: RISG, LLYWODRAETHU A THROSOLWG GWYBODAETH

3.1 Cydnabod Risg Gwybodaeth

Nod: Mae'r sefydliad yn diffinio ac yn rheoli risgiau gwybodaeth i leihau bygythiadau i'r eithaf a chynyddu cyfleoedd i'r eithaf

Meini Prawf	Maes datblygu	Bodddhaol	Da	Arfer gorau
Trefniadau llywodraethu ar gyfer risg gwybodaeth	Mae'r sefydliad yn cydnabod yr angen i ddarparu arweinyddiaeth mewn perthynas â risg gwybodaeth, ond nid yw wedi sefydlu strwythur llywodraethu priodol eto.	Mae'r sefydliad wedi penodi Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth sydd wedi cael hyfforddiant priodol. Mae wedi sefydlu strwythur llywodraethu sy'n darparu atebolrwydd ac arweinyddiaeth mewn perthynas â risg gwybodaeth.	Mae'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth a'r Bwrdd yn noddi ac yn hyrwyddo'r drefn o reoli risg gwybodaeth yn gyson ac yn weladwy. Maent yn pwysleisio pwysigrwydd ymlynu wrth bolisi a chanllawiau corfforaethol.	Mae'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth a'r Bwrdd yn rhoi blaenoriaeth i sefydlu diwylliant adrodd a dysgu. Mae uwch aelodau o staff a rheolwyr yn cydnabod eu hatebolrwydd ac yn mynd ati'n gyson i hyrwyddo pwysigrwydd rheoli risg gwybodaeth ar bob lefel yn y sefydliad.
Cadarnhau sut i reoli risg gwybodaeth.	Mae'r sefydliad yn cydnabod y gall risgiau gwybodaeth gael effaith sylweddol, ond nid yw wedi llunio diffiniad eto nac wedi llunio polisi ar gyfer eu rheoli.	Mae'r sefydliad wedi llunio diffiniad o risg gwybodaeth sy'n adlewyrchu gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol ac mae wedi cyhoeddi polisi rheoli risg gwybodaeth.	Mae'r sefydliad wedi diffinio goddefiannau, archwaethau, llinellau adrodd a llwybrau uwchgyfeirio. Mae'n mynd ati'n gyson i asesu risgiau i oleuo penderfyniadau ynghylch rheoli, trin a manteisio ar wybodaeth.	Mae'r sefydliad yn rheoli risg gwybodaeth o fewn y fframwaith risg busnes safonol, ac fe'i cynrychiolir ar gofrestrau risgiau ar bob lefel. Fe'i hystyrir ochr yn ochr â risgiau busnes eraill ac fel ffactor ynddynt.
Adnabod achosion, bygythiadau a chyfleoedd	Mae'r sefydliad yn cydnabod yr angen i ddatblygu ei ddealltwriaeth am risg gwybodaeth, ond mae'n adnabod ystod gul o achosion ac nid yw wedi'i ddogfennu ar lefel briodol eto.	Mae'r sefydliad wedi adnabod risgiau gwybodaeth allweddol ar lefel gymesur. Mae'n cydnabod bod rheoli gwybodaeth yn ogystal â thrin gwybodaeth yn gallu bod yn ffynhonnell risgiau sylweddol i'r sefydliad.	Mae'r sefydliad yn dogfennu ystod gymesur o fygythiadau sy'n deillio o lywodraethu, cynllunio, polisi ac arfer ym meysydd rheoli a thrin gwybodaeth. Mae'n adnabod camau lliniaru.	Mae'r sefydliad yn dogfennu'r risg o beidio â rhannu neu fanteisio ar wybodaeth yn ôl ei gwerth. Mae'n pwysleisio effaith strategol bosibl risgiau o'r fath, gan ganolbwyntio ar gyfleoedd yn ogystal â bygythiadau.

ADRAN 3: RISG, LLYWODRAETHU A THROSOLWG GWYBODAETH

3.2 Cadarnhau Rheolaeth

Nod: Mae gan y sefydliad strwythurau llywodraethu effeithiol sy'n meithrin cyfathrebu a chynllunio strategol

Meini Prawf	Maes datblygu	Bodddhaol	Da	Arfer gorau
Cynllunio a darparu gwasanaeth ar gyfer y busnes	Mae'r sefydliad yn cydnabod yr angen i neilltuo cyfrifoldeb arweiniol a gweithredol am reoli gwybodaeth a chofnodion, ond nid yw wedi gwneud hynny eto.	Mae'r sefydliad wedi neilltuo cyfrifoldeb arweiniol a gweithredol am reoli gwybodaeth a chofnodion. Mae cynllun i fynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol wedi cael ei ddatblygu.	Mae gan y swyddogaeth rheoli gwybodaeth a chofnodion staff â'r sgiliau rheoli gwybodaeth a hysbysrwydd angenrheidiol ac mae cynllun cymesur ar waith i roi cymorth i'r busnes, gwella galluedd a mynd i'r afael â'r risgiau a adnabuwyd.	Mae'r swyddogaeth rheoli gwybodaeth a chofnodion mewn sefyllfa i ddarparu sicrwydd hollbwysig ar gyfer y bwrdd. Mae'n ymgysylltu'n weithredol â'r busnes ac yn ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg.
Sicrhau bod gweithwyr gwybodaeth proffesiynol yn cefnogi ei gilydd	Mae'r sefydliad yn cydnabod yr angen am gyfathrebu rhwng staff rheoli gwybodaeth a chofnodion, TG ac asedau gwybodaeth, ond ychydig o sianelau ffurfiol sy'n bodoli.	Mae'r sefydliad wedi sefydlu sianelau ffurfiol sy'n cefnogi trefniadau cyfathrebu a chydweithio rhwng staff rheoli gwybodaeth a chofnodion, TG ac asedau gwybodaeth.	Mae staff rheoli gwybodaeth a rheoli cofnodion, TG ac asedau gwybodaeth yn cydweithio'n rheolaidd. Mae trefniadau llywodraethu megis aelodaeth o'r Bwrdd yn galluogi dull cydgysylltiedig.	Mae staff rheoli gwybodaeth a chofnodion, TG ac asedau gwybodaeth yn cynllunio ar y cyd ar lefel strategol a gweithredol. Mae perthnasoedd gweithio agos yn sicrhau y cynhelir dealltwriaeth gyffredin.
Dirprwyo cyfrifoldeb i rwydweithiau ategol	Mae'r sefydliad yn cydnabod yr angen i ddirprwyo cyfrifoldeb gweinyddol am reoli gwybodaeth, ond nid yw wedi diffinio sut y bydd yn gwneud hyn yn ymarferol eto nac wedi neilltuo rolau ategol.	Mae'r sefydliad wedi nodi ble y mae angen iddo ddirprwyo cyfrifoldeb gweinyddol am reoli gwybodaeth. Mae rolau wedi cael eu neilltuo i roi cymorth i gydymffurfio â pholisi a chefnogi'r busnes.	Mae'r sefydliad yn sefydlu rhwydweithiau a chymunedau. Mae'r rhain yn cael eu cefnogi'n dda ac maent yn cydweithio i'w gwneud yn bosibl diogelu, rheoli a manteisio ar wybodaeth mewn modd cyson.	Mae gan y sefydliad rwydweithiau a chymunedau sydd wedi hen ennill eu plwyf. Mae'r rhain yn rhoi cyngor arbenigol ac mae ganddynt rôl gydnabyddedig o ran galluogi effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithredol.

ADRAN 3: RISG, LLYWODRAETHU A THROSOLWG GWYBODAETH

3.3 Rhoi Arweiniad

Nod: Mae'r sefydliad yn rhoi'r cyfarwyddyd y mae ar staff ei angen i reoli, diogelu a manteisio ar wybodaeth mewn modd effeithiol

Meini Prawf	Maes datblygu	Bodddhaol	Da	Arfer gorau
Sefydlu polisi i oleuo penderfyniadau	Mae'r sefydliad yn cydnabod yr angen i ddarparu polisi ac arweiniad ar gyfer rheoli gwybodaeth a chofnodion, ond nid yw'r ddogfennaeth yn gyfredol nac yn hawdd dod o hyd iddi.	Mae gan y sefydliad bolisi ac arweiniad cyhoeddedig cynhwysfawr, cyfredol ar gyfer rheoli gwybodaeth a chofnodion. Caiff y rhain eu cadw'n ganolog, maent yn hawdd dod o hyd iddynt ac yn hygyrch.	Mae polisi ar gyfer rheoli gwybodaeth a chofnodion yn bodoli o fewn fframwaith ehangach sy'n gydfegnogol ac yn targedu risgiau a adnabuwyd. Fe'i cymeradwyir gan uwch reolwyr ac fe'i gwneir yn hysbys.	Mae polisi ar gyfer rheoli gwybodaeth a chofnodion yn gyson â strategaethau gwybodaeth a busnes. Fe'i cyhoeddir yn allanol ac fe'i hadolygir yn rheolaidd i sicrhau perthnasedd parhaus.
Adnabod pa wybodaeth ddylid ei chadw a sut y dylid ei rheoli	Mae'r sefydliad yn cydnabod yr angen i reoli llawer o wybodaeth ddigidol, ond nid yw eto'n rhoi arweiniad priodol i staff ynghylch ei gwaredu.	Mae'r sefydliad wedi llunio arweiniad generig ynghylch gwaredu sy'n cadarnhau pa wybodaeth y mae angen ei chadw, ble, gan bwy ac am ba hyd.	Mae'r sefydliad yn llunio arweiniad cymesur, wedi'i deilwra ynghylch gwaredu. Mae'n gweithio gyda defnyddwyr i sicrhau bod yr arweiniad yn cael ei gadw'n gyfoes ac yn adlewyrchu gofynion allweddol o ran ansawdd.	Mae arweiniad ynghylch gwaredu'n cael ei gydnabod fel adnodd corfforaethol allweddol. Caiff y defnydd ohono'i hybu ar bob lefel yn y sefydliad fel dull o liniaru risgiau i argaeledd a chyflawnder gwybodaeth.
Diwallu anghenion o ran hyfforddiant	Mae'r sefydliad yn cydnabod yr angen i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r safonau ar gyfer rheoli gwybodaeth, ond nid yw'n darparu hyfforddiant eto.	Mae'r sefydliad wedi adnabod gofynion o ran hyfforddiant ar gyfer rheoli gwybodaeth. Mae'n darparu cyfarwyddyd i sicrhau bod staff yn ymwybodol o safonau a chanllawiau.	Mae'r sefydliad yn gyson yn ennyn ymgysylltiad uwch aelodau o staff a rheolwyr i gynyddu dealltwriaeth am arfer da. Mae'n cyflogi staff rheoli gwybodaeth proffesiynol ac yn cefnogi eu datblygiad parhaus.	Mae'r sefydliad yn sicrhau bod diogelu a rheoli gwybodaeth yn cael eu cydnabod fel cymwyseddau allweddol ac wedi'u sefydlu o fewn prosesau sefydlu ar bob lefel. Mae anghenion o ran hyfforddiant yn cael eu gwerthuso'n barhaus.

ADRAN 3: RISG, LLYWODRAETHU A THROSOLWG GWYBODAETH

3.4 Mesur Effaith

Nod: Mae'r sefydliad yn mesur perfformiad yn ymarferol ac yn cymryd camau gweithredu gwybodus sy'n seiliedig ar risgiau o ganlyniad

Meini Prawf	Maes datblygu	Bodddhaol	Da	Arfer gorau
Sefydlu trosolwg i fonitro perfformiad	Mae'r sefydliad yn cydnabod yr angen i ddeall sut y mae gwybodaeth yn cael ei	Mae gan y sefydliad drosolwg ddigonol ar yr amgylchedd technolegol i ddeall sut y mae	Mae gan y sefydliad drosolwg ar y rhan fwyaf o'r amgylchedd technolegol. Mae wedi	Mae gan y sefydliad drosolwg ar yr amgylchedd technolegol i gyd a gall gael metrigau manwl yn ôl

	rheoli a'i thrin, ond nid oes trosolwg ganddo ac nid yw wedi diffinio metrigau.	gwybodaeth yn cael ei rheoli a'i thrin o fewn storfeydd corfforaethol. Mae wedi diffinio ystod sylfaenol o fetrigau.	adnabod ystod gymesur o fetrigau a all ei helpu i ddeall sut y mae gwybodaeth yn cael ei thrin, ei rheoli a sut y manteisir arni.	yr angen, ar bob lefel. Mae wedi adnabod ystod o fesurau perfformiad meintiol ac ansoddol.
Adrodd ar berfformiad	Mae'r sefydliad yn cydnabod yr angen i adrodd ar berfformiad o ran rheoli a thrin gwybodaeth, ond nid yw wedi diffinio'r gofynion eto.	Mae'r sefydliad wedi diffinio pryd a sut i fonitro perfformiad o ran rheoli a thrin gwybodaeth yn unol â'i anghenion ei hun.	Mae'r sefydliad yn adrodd yn rheolaidd ar gynnydd o ran rheoli a thrin gwybodaeth, gan bwysleisio cynnydd i ysgogi galluedd a rheoli risgiau. Mae perfformiad yn weladwy ar lefel y Bwrdd.	Mae'r sefydliad yn ceisio sicrwydd parhaus ynghylch perfformiad o ran rheoli a thrin gwybodaeth a chynnydd tuag at gyrraedd nodau'r strategaeth gwybodaeth. Mae'n gallu dangos y budd i'r busnes sy'n deillio o Reoli Gwybodaeth a Hysbysrwydd yn unol ag amcanion corfforaethol.
Targedu arfer gwael a gwella safonau	Mae'r sefydliad yn dymuno cynyddu galluedd o ran rheoli a thrin gwybodaeth, ond nid yw wedi sefydlu meincnodau eto.	Mae'r sefydliad wedi diffinio beth yw da a gwael o ran cydymffurfio â deddfwriaeth, gofynion rheoleiddiol a chanlyniadau busnes allweddol. Mae cyfrifoldeb am gamau cywirol wedi'i neilltuo.	Mae'r sefydliad yn defnyddio'i ddealltwriaeth am berfformiad o ran rheoli a thrin gwybodaeth yn gyson, i amlygu arfer da a blaenoriaethu meysydd i'w gwella.	Mae'r sefydliad yn defnyddio offer megis cynlluniau gwella rheoli gwybodaeth, modelau aeddfedrwydd a gwiriadau iechyd mewnol ar sail strwythuredig; mae perfformiad yn cael ei asesu i ysgogi gwelliant parhaus.

ADRAN 4: ADOLYGU A THROSLWYDDO COFNODION

4.1 Arfarnu a Dethol Cofnodion

Nod: Mae'r sefydliad yn deall gwerth ei gofnodion ac yn gallu adnabod y rhai â gwerth hanesyddol parhaus mewn modd cyson

Meini Prawf	Maes datblygu	Boddhaol	Da	Arfer gorau
Galluogi cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus	Mae'r sefydliad yn cydnabod yr angen i benodi Swyddog Cofnodion Adrannol, ond nid yw wedi gwneud hynny eto nac wedi diffinio'i rwymedigaethau dan y Ddeddf Cofnodion	Mae'r sefydliad wedi penodi Swyddog Cofnodion Adrannol i oruchwyllo'r drefn o reoli gwybodaeth. Mae wedi diffinio'i ddull o gyflawni rhwymedigaethau dan y Ddeddf Cofnodion	Mae rôl y Swyddog Cofnodion Adrannol mewn sefyllfa ac yn cael ei chefnogi i amlygu risgiau allweddol mewn perthynas â rheoli cofnodion. Mae gan y Swyddog Cofnodion Adrannol rôl	Mae rôl y Swyddog Cofnodion Adrannol wedi'i hintegreiddio o fewn systemau llywodraethu corfforaethol ehangach. Mae rôl y Swyddog Cofnodion Adrannol yn rhagweithiol o ran

	Cyhoeddus.	Cyhoeddus.	gydnabyddedig o ran arwain ar gydymffurfiaeth â'r Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus.	hyrwyddo diwylliant o reoli gwybodaeth yn dda.
Deall meintiau a gwerth a rheoli adnoddau	Mae'r sefydliad yn gwybod bod ei wybodaeth yn cael ei llywodraethu gan y Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus, ond nid yw'n deall beth mae'n ei ddal na sut i arfarnu ei werth.	Mae'r sefydliad yn gallu llunio bras amcan o gofnodion a ddelir ym mhob fformat. Mae wedi adnabod rolau a chyfrifoldebau sy'n ofynnol i gyflawni ei rwymedigaethau dan y Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus.	Mae'r sefydliad yn gallu mynd ati'n gyson i bennu cyfanswm maint y cofnodion y mae'n eu dal ym mhob fformat. Mae'n gallu barnu gwerth ei gofnodion yn unol ag amcanion, swyddogaethau a phrosesau busnes allweddol	Mae'r sefydliad yn cynnal ei ddealltwriaeth o ran pa wybodaeth y mae'n ei dal, ble ac ym mha fformat. Mae ei ddull o arfarnu cofnodion yn cynnwys y busnes ac mae'n gyson â'r broses amserlennu ar gyfer cadw.
Dethol cofnodion â gwerth hanesyddol	Mae'r sefydliad yn cydnabod y gall ei gofnodion fod â gwerth ar gyfer defnyddwyr yn y dyfodol, ond nid yw'n gallu eu hadnabod eto na chymhwyso meini prawf dethol.	Mae'r sefydliad wedi defnyddio meini prawf dethol generig i ddatblygu ei gyfiawnhad dros ddethol. Mae'n ymchwilio sut i gymhwyso'r rhain i gofnodion digidol a hybrid.	Mae'r sefydliad yn deall pa gofnodion sy'n debygol o fod â gwerth hanesyddol, ac mae'n gallu eu dethol yn gyson yn unol â'r polisiau y cytunwyd arnynt gyda'r Archifau Cenedlaethol, gan ddefnyddio dulliau gwahanol i ateb gofynion gwahanol.	Mae'r sefydliad wedi cynhyrchu a chyhoeddi disgrifiad eglur sy'n diffinio gwerth hanesyddol, a gymeradwywyd gan yr Archifau Cenedlaethol ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'n dethol cofnodion gan ddefnyddio'r meini prawf cytunedig a chyfiawnadwy ar draws pob fformat.

ADRAN 4: ADOLYGU A THROSLWYDDO COFNODION

4.2 Gweithredu Penderfyniadau ynghylch Gwaredu

Nod: Mae'r sefydliad yn deall y broses ar gyfer gwaredu cofnodion ac yn gweithredu penderfyniadau'n gyson yn unol â chynlluniau diffiniedig

Meini Prawf	Maes datblygu	Boddhaol	Da	Arfer gorau
Gwaredu cofnodion yn ddiogel	Mae'r sefydliad yn cydnabod bod angen iddo waredu cofnodion, ond nid yw wedi diffinio sut i wneud hynny ar draws pob fformat eto.	Mae'r sefydliad wedi diffinio gofynion ar gyfer gwaredu cofnodion yn ddiogel (gan gynnwys cofnodion caeëdig). Mae'n cyflawni gweithredoedd i ddifa cofnodion ym mhob fformat mewn modd diogel ac yn cynnal trywydd archwilio.	Mae gan y sefydliad yr adnoddau a'r cymorth i fynd ati'n gyson i weithredu prosesau cymeradwy sy'n seiliedig ar werth ar gyfer gwaredu cofnodion papur a digidol yn rheolaidd ac yn ddiogel yn unol â'i bolisiau gwaredu.	Mae'r sefydliad yn gwneud penderfyniadau rheolaidd ac archwiliadwy ynghylch gwaredu'r holl gofnodion ym mhob fformat gyda chymorth gan y busnes. Mae'n mynd ati'n weithredol i fonitro perfformiad contractwyr i sicrhau bod meini prawf

				yn cael eu bodloni.
Adolygu cofnodion o safbwynt sensitifrwydd	Mae'r sefydliad yn cydnabod yr angen i gynnal adolygiad sensitifrwydd, ond nid yw'n darparu adnodd hyfforddedig ac arbenigol eto.	Mae'r sefydliad wedi diffinio'i ofynion ar gyfer adolygiad sensitifrwydd, gan gynnwys ymgynghori a golygu. Mae'n darparu adnodd sy'n arbenigol ac wedi cael hyfforddiant addas ac yn sicrhau ei fod yn cyflwyno cais i Gyngor Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor mewn pryd i gydymffurfio â'r Rheol 20 Mlynedd.	Mae gan y sefydliad drefniadau i benderfynu'n rheolaidd pa gofnodion ddylai gael eu cadw yn yr adran, eu dynodi fel rhai agored wrth eu trosglwyddo neu eu trosglwyddo fel rhai caeëdig. Mae esemptiadau'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws yr holl gofnodion.	Mae prosesau sy'n cael eu monitro ac a brofwyd ar waith ar gyfer adolygiad sensitifrwydd o gofnodion papur a chymhwyso esemptiadau. Mae'r sefydliad yn gweithio gyda'r Archifau Cenedlaethol i ddeall y gofynion ar gyfer cofnodion digidol.
Cynllunio ar gyfer trosglwyddo cofnodion	Mae'r sefydliad yn cydnabod ei rwymedigaethau i drosglwyddo cofnodion, ond nid oes cynllun ganddo, neu mae'n cynllunio ar sail ad hoc.	Mae'r sefydliad yn gweithio'n unol â chynllun diffiniedig a chytunedig ar gyfer trosglwyddo cofnodion i'r Archifau Cenedlaethol a mannau adneuo eraill.	Mae'r sefydliad yn deall effaith y rheol 20 mlynedd ar feintiau'r wybodaeth a drosglwyddir ac mae ganddo gynllun cymesur i ateb gofynion ar gyfer pob fformat.	Mae'r sefydliad yn gyson yn cyrraedd y targedau y mae'n eu pennu ac yn ymgysylltu'n weithredol â'r Archifau Cenedlaethol ynghylch trosglwyddo cofnodion ym mhob fformat yn gynnar, lle y bo'n ymarferol ac yn briodol.